

ECO'r Wyddfa

Rhif: 448
Tachwedd 2016
Pris: 70c



Lansio Hwb Eryri



Bu lansiad swyddogol Hwb Eryri yn y Mynydd Gwefru, Llanberis ar ddydd Sadwrn cyntaf mis Hydref, gydag anerchiad gan Hywel Williams A.S. Eglurwyd bwriad y cynllun gan Stephen Edwards, sy'n un o'r gwirfoddolwyr gyda'r Hwb.

Daeth yr Hwb i fodolaeth yn dilyn cau y Swyddfa Gwybodaeth i Ymwelwyr yn gynharach eleni. Ym mis Awst sefydlwyd desg wybodaeth yng nghyntedd y Mynydd Gwefru gyda dau berson yn gwirfoddoli i fod yn gyfrifol amdani. Yn ystod y mis derbyniwyd dros 1200 o ymholiadau. Bwriedir parhau â'r gwasanaeth hwn.

Mae chwech cyfarwyddwr gwirfoddol wedi eu penodi a bydd y bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol: cyfuniad o wirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned fusnes lleol.

Prif fwriad Hwb fydd cydweithio a chydlynnu gwahanol weithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn yr ardal – boed hynny gan fentrau lleol megis Gwyl Ffilm Llanberis (sydd

eisoes yn cyfrannu'n ariannol i gynnal Hwb) neu gwmnïau masnachol o'r tu allan sy'n trefnu cystadleuthau athletaidd. Mae cysylltu efo'r cwmnïau allanol hyn yn hanfodol er mwyn i fusnesau lleol gael digon o rybudd ymlaen llaw o amseriad y digwyddiadau, ond hefyd i berswadio'r cwmnïau i ddefnyddio cyflenwyr lleol yn hytrach na chario popeth i mewn. Drwy wneud hyn y gobaith yw cynyddu'r economi lleol er budd y gymuned lleol.

Ond diwedd y gân yw'r geiniog, a rhaid wrth gyfraniadau ariannol i gario'r gwaith ymlaen a hybu'r syniad er budd y gymuned - gan fusnesau lleol a chwmnïau masnachol allanol sy'n defnyddio'r adnoddau lleol.

Ac er fod camau breision wedi eu cymryd ers sefydlu'r Hwb ar ddechrau Gorffennaf, mae angen sefydlogi, a chroesewir gwasanaeth unrhyw un sy'n fodlon gwirfoddoli gyda'r gwaith.

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 448
Tachwedd 2016**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Swn yr Egan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL:

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid

dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU' RECO 2015

Rhifyn
Rhagfyr

Nadolig/Ionawr

Copi i law
Tachwedd 20

Rhagfyr 4

Bwndelu
Rhagfyr 2

Rhagfyr 16

Ble
Caeathro

Llanrug

LLYTHYRAU

Cyfarfod arbennig iawn: Pa Hanes a ddysgir i'n Plant?

Faint o Hanes Cymru gawsoch chi yn yr ysgol, os o gwbl? Mae pob cenedl gwerth galw ei hun yn genedl yn sicrhau bod ei dinasyddion yn gwybod am ei gorffennol; mae'n rhan hanfodol o hunaniaeth cenedl. Cwblw'r thus a sarhaus, yn wir, yw'r cwricwlwm Hanes a orfodir ar ein plant yn ein hysgolion yng Nghymru heddiw, sy'n eu hamddifadu o'u hunan-barch a'u hunaniaeth, hynny trwy gyflwyno hanes gwledydd eraill yn hytrach na Chymru.

Mae ymgyrch ar droed i newid hyn, ac un o brif arweinwyr y frwydr i sicrhau lle canolog i hanes ein gwlad ym myd addysg Cymru yw Dr Elin Jones, Ystrad Mynach, sydd wedi cynnal ymchwiliad ar ran y Llywodraeth i'r angen i ddiwygio maes llafur dysgu Hanes yn ein hysgolion. Mae Canolfan Hanes Uwchgwyrfai wedi llwyddo i'w denu hi i'r gogledd i esbonio ei gweledigaeth. Gyda hi bydd dau hanesydd adnabyddus i ni yma yng Ngwynedd, Eryl Owain a John Dilwyn Williams. Mae testun y cyfarfod yn gofyn y cwestiwn tyngedfennol, "Dysgu Hanes i'n Plant. Pa Hanes?"

Os oes gennych ddiddordeb yn Hanes Cymru, neu yn nyfodol Cymru fel cenedl, dylech ddod i'r cyfarfod hollbwysig hwn.

Fe'i cynhelir ddydd Sadwrn y 26ain o Dachwedd, 1-4pm yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr LL54 5BT.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â ni, 01286 660 546, canolfanuwcgwyrfai@gmail.com

Anghofio ein hanes yw bradychu ein gwlad.

Annwyl Olygydd,

Hanes marwolaeth fy nhaid Owen Jonnah Owen mewn ysbyty yn Birmingham 12 o Dachwedd 1916.

Ymunodd taid â'r fyddin ar ddechreuad y Rhyfel Fawr yn 1914 gyda'i frawd-yng-nghyfraith, David Jones, ac ar ôl gorffen eu hyfforddiant gyrrwyd y ddau i Ffrainc. Ar ddechrau haf 1916 'roedd y ddau yn rhan o'r fyddin yn Mammets Woods ac, yn anffodus, lladdwyd Yncl David. Aeth taid ato i'w gynorthwyo ond fe saethwyd ef hefyd a niweidiwyd ef yn arw. Gyrrwyd taid yn ôl i'r ysbyty yn Birmingham ond ni chafwyd hyd i gorff Yncl David ac nid oes bedd iddo yn unman. Bu taid yn yr ysbyty am dros bedwar mis cyn iddo farw ar y 12fed o fis Tachwedd 1916 a bu ei angladd ar y Sadwrn canlynol, 19 o Dachwedd, ym mynwent Sant Peris wrth droed Yr Wyddfa.

Ar ddydd Sadwrn, 19 o Dachwedd, eleni,, mae aelodau o'r teulu yn ymgynnull ar dir hen gapel Nant Padarn am 11 o'r gloch i dalu teyrnged i'r ddau ohonynt. Bydd y Parchedig John Pritchard yn defnyddio y bregeth a ddefnyddiwyd gan y Parchedig J. Evans Owen yng nghapel Nant Padarn fel rhan o'r gwasanaeth i dalu teyrnged i taid.

Chwarelwr oedd taid, yn enwog yn yr ardal fel codwr canu yng nghapel Nant Padarn, fel arweinydd cymanfaoedd yng Ngogledd Cymru. Byddai hefyd yn arwain corau cymysg a chorau plant yn y pentref. Bu hefyd yn gol-geidwad i dîm pêl-droed Llanberis.

Yn gywir,

Gordon Parry, mab Delia Parry (Anti Delia i blant Llanberis), yn ddiweddar o deulu Plas Tirion.



CHRIS GRIFFITHS
Trwsio Ffenestri UPVC • Drysau
Cloeau • Bachau • Twll Llythyrau
Ac unedau Gwydr wedi Chwythu
18 Mill Lodge, Llandegfan, Ynys Môn LL59 5YB
01248 713 369 neu 07813 455653

17 Stryd Fawr
Llanberis, Gwynedd
9fed Hydref 2016

Annwyl Olygydd,
Dymunaf ychwanegu gwybodaeth at erthygl 'Cau Llyfrgelloedd y Fro' a ymddangosodd yn rhifyn mis Hydref 'Eco'r Wyddfa'.

Rwyf i, fel Cynghorydd Sir sy'n cynrychioli Llanberis, wedi cael sawl trafodaeth gyda swyddogion Cyngor Sir Gwynedd ynglŷn â cheisio ail leoli Llyfrgell Llanberis.

Mae pennawd yr erthygl yn ogystal â'r is-bennawd felly yn gamarweiniol a hyderaf yn fawr y byddwch yn hysbysu'r darllenwyr o hyn ac y cawn lyfrgell i drigolion Llanberis yn y dyfodol.

Yn gywir,

Trevor Owen Edwards
(Cynghorydd)

CYLCH LLENYDDOL CAERNARFON A GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon ar nos Fawrth, 15ed Tachwedd, am 7.30 o'r gloch. Y siaradwraig wadd fydd Meinir Pierce Jones a'i thestun fydd 'Elizabeth Watkin Jones a'i nofelau i blant'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
**London House
LLANRUG**
**PEN
CIGYDDION
Y FRO**
YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**
(01286) 673574

Cyfarfod Blynyddol “Eco'r Wyddfa”.

Cynhaliwyd eleni yn Neiniolen, gydag wyth yn bresennol a thri ymddiheuriad. Mae Gwyn Parri, ‘Cynefin’ Deiniolen wedi derbyn swydd Cadeirydd. Mae gweddill y swyddogion yn aros. Trafodwyd nifer o eitemau, a bydd cyfarfod o’r swyddogion wedi ei gynnal cyn i’r rhifyn hwn eich cyrraedd. Mwy o fanylion i ddilyn. Diolchwyd i bawb sy’n gwirfoddoli mewn amryfal ffyrdd i wneud yn siwr fod yr “Eco” yn cael ei baratoi a’i ddosbarthu yn fisol.

Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2016

Incwm	
Gwerthiant	8450.85
Hysbysebion	6553.00
Dosbarthu taflenni	200.00
Rhoddion	1559.30
Grantiau	
Llywodraeth Cymru	1870.00
Cynghorau Cymuned	
Llanberis	500.00
Llanddeiniolen	400.00
Llanrug	700.00
Waunfawr	300.00
Cystadleuaeth Tlws yr Eco	3770.00
Llôg Banc	30.00
	4.73
	20567.88
Gwariant	
Argraffu, plygu a chasglu	16269.00
Dylunio	3740.00
Teipio	2860.00
Post	678.92
Papur, amlenni ayyb	46.38
Costau'r Wefan	431.28
	24025.58
"Colled" am y flwyddyn	3457.70

Cyfaddawd



♦ Y dderwen yn dilyn cyfaddawdu

Mae Dŵr Cymru yn gwario rhai miloedd o bunnau ar uwchraddio’r gwaith yn ardal y Stabla. Roedd yn fwriad ganddynt i dorri coeden dderw sylweddol o ran maint er mwyn parhau â’r gwaith. Ond roedd nifer o drigolion yr ardal yn anfodlon iawn ac yn gwrthwynebu torri’r dderwen, a hynny yn bennaf am resymau amgylcheddol. Bu cryn drafod a dadlau o’r ddwy ochr, ac o’r diwedd bu cyfaddawdu. Cytunodd Dŵr Cymru i docio’r dderwen, a chael gwared a’r canghennau mwyaf. ‘Pollarding’ yw’r term a ddefnyddir yn Saesneg, ac o wneud hynny, y gobaith yw y bydd tyfiant newydd yn ail-dyfu o weddill y dderwen.

Yn ystod y mis a aeth heibio ...

- Derbyniodd Snowdonia Pumped Hydro (SPH) ganiatad cynllunio i gysylltu eu gorsaf bwer arfaethedig yng Nglyn Rhonwy gyda’r Grid Cenedlaethol drwy gyfrwng ceblau tan-ddaearyl. Roedd y datblygwyr wedi cynnig cysylltiad o’r fath o’r cychwyn cyntaf. Mae caniatad eisoes wedi ei roi i gynhyrchu 49.9 MW o drydan, ond mae SPH yn disgwyl ar hyn o bryd am ganiatad i’w ddyblu.
- Yn dilyn cwffas honedig yn Senedd Ewrop a chyfnod mewn ysbyty yn dilyn, penderfynodd Steven Wolfe, ymgeisydd a gai ei gysidro’n un o’r ffefrynnau i arwain UKIP, ymddiswyddo o’r blaidd honno.
- Un arall i ymddiswyddo o’i blaidd oedd yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas, aelod Plaid Cymru Meirionnydd, a hynny ar drothwy cynhadledd ei blaidd yn Llangollen. Diffyg cydweithio â’r Llywodraeth Llafur er budd Cymru oedd ei reswm, a hynny yn ystod yr wythnos pan gytunodd Plaid Cymru a’r Llywodraeth ar gyllideb i Gymru.
- Ymddiswyddodd yr aelod seneddol ceidwadol Zac Goldsmith, oherwydd cefnogaeth ei Lywodraeth i estyniad dadleuol i faes awyrr Heathrow.

- Roedd honiadau hefyd fod Philip Hammond yn cysidro ymddiswyddo oherwydd safiad y Toriaid am 'Brexit caled', fel pe bai unrhyw un yn gwybod beth yn union yw/fydd hwnnw, oherwydd
- yn dilyn trafodaethau Llywodraeth Westminster gyda gweinidogion llywodraethau’r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, dywedodd Nicola Sturgeon a Carwyn Jones nad oeddent fawr callach ar ôl y fath gyfarfod ynglŷn â’r hyn oedd bwriadau Theresa May a’i chriw.
- Mae Gogledd Cymru y pedwerydd lle mwyaf deniadol yn y byd i dreulio gwyliau yn 2017. Dyna farn Lonely Planet. Roedd y dewis eithriadol o wyliau antur yn rhannol gyfrifol am y fath safle, a chroesawyd y sylw gan bawb sy’n ddibynnol ar y diwydiant twristiaeth.
- Ond yn bwysicach o lawer i rai pobl – sy’n ei hoffi yn hytrach na’i gasau – oedd y posibilrwydd fod Marmite yn diflannu oddi ar sillfoedd rhai archfarchnadoedd!

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

grid76
graphic design

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Ysgol Dolbadarn



Dyma lun o ddisgyblion newydd yr ysgol eleni sef y dosbarth Meithrin. Croeso cynnes iddynt a'u hathrawes Miss Anest Bryn Jones.

Cyngor Ysgol

Dyma ddisgyblion y Cyngor Ysgol am eleni- pob hwyl i chi gyda'r gwaith.

Grŵp Eco

Dyma ddisgyblion yr Ysgol Eco am eleni- edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld eich dylanwad ar fuarth yr ysgol eleni.

Llys-genhadon chwaraeon.

Enwebwyd y ddau blentyn yma am eu gwaith caled yn y maes chwaraeon.

Swyddogion Presenoldeb

Mae'r disgyblion yma yn monitro canrannau presenoldeb pob dosbarth yn wythnosol ac yn adrodd ar ddosbarthiadau sy'n gwella y canran presenoldeb yn ystod y tymor. Bydd gwaith o lunio pamffled presenoldeb hefyd yn rhan pwysig o'u gwaith eleni.



Ymweliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Turner

Daeth llun arbennig iawn i'r ysgol yr holl ffordd o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Abesrystwyth sef gwaith dehongliad Turner o Gastell Dolbadarn. Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 gwmni disgyblion Bl 11 +12 Ysgol Brynrefail am y diwrnod ynghyd â Mr Dylan Roberts athro Celf yr ysgol. Cyflwyddodd Mr Roberts wers yn canolbwyntio ar tirluniau ac yna aethpwyd i'r Castell i greu ychydig o frasluniau. Yr oedd hwn yn brofiad anhygoel i'r plant a bu bwrlwm yn yr ysgol yn ystod y dydd gyda'r holl ymwelwyr, cynghorwyr a chamerau ac ati.

Pêl-droed

Dechreuwyd y tymor yn llawn hyder mewn gêm gyfeillgar yn erbyn ysgol Gwaun Gynfi ar gae Ffordd Padarn yn ddiweddar. Da iawn chi blant- ymalen i'r nesaf! Diolch i Mr Owen Hughes am ofalu am y tim ac i rieni a fu'n cynorthwyo gyda'r trefniadau.

Parhad LLANBERIS

Cofion Tyner am wr, tad a thaid annwyl, sef W.T.Roberts (Wil Lôn Bost), a fyddai wedi dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar y 4ydd o Hydref, ond a’n gadawodd ar y 19eg o Hydref, 1993. Gyda Chariad y Cofiwn. Eunice a’r Teulu.

Diolchiadau Dymuna Iris Morris ddiolch i’w theulu a ffrindiau am y blodau, cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr!

Cyngerdd Carolau Yn Capel Coch Llanberis dydd Iau, 15fed o Ragfyr, am 2 o’r gloch y prynhawn. “Carolau, Paned a Mins Pei”, yng nghwmni Parti Bytholwyrdd.Yr Arweinydd Gwadd fydd Carys Edwards, Y Bala

Cyfeillion Plas Pengwaith



Criw bach ydym o gymeriadau allanol, trigolion a gweithwyr y Cartref gyda diddordeb i sicrhau bod trigolion y Cartref yn cael byw eu bywydau i’r eithaf, pan fo hynny’n bosibl.

Mae amryw o weithgareddau yn cael eu cynnal yn rheolaidd gydag ymweliadau i’r Galeri. Aeth nifer dda i weld arddangosfa’r pabi yng Nghastell Caernarfon, gyda chyfraniad gan y Cyfeillion tuag at y gweithgaredd. Cafwyd te a chacen yn Nghaffi Gray Thomas wedi’r ymweliad, a mawr yw ein diolch i’r staff yno am eu croeso a’u haelioni.

Ar y 23ain o Dachwedd bydd Bingo yn cael ei gynnal, a’r gobaith yw eu cynnal yn fisol wedi hynny. Gwahoddir trigolion yr ardal i ymuno a ni. Gwylwch am y posteri a dewch am bnawn a dipyn o hwyl.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddechrau Rhagfyr. Bydd hwn yn gyfarfod blynyddol. Byddai eich gweld yno i gefnogi a chyfrannu yn help mawr. Am ragor o wybodaeth cysylltwch a Sian Williams Evans, Rheolwr y Cartref. Rhif ffôn 870360.

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bel Bonws am fis Medi oedd Diane Hughes-Jones.

OEDFAON CAPEL COCH

Tachwedd 6ed: Cyfarfod Gweddi 10yb; Canon Idris Thomas Syh
 13eg: Gweinidog 10yb; Oedfa MOLI Syh
 20fed: Parchedig Glenys Jones 10yb; Parchedig Charles W Jones Syh
 27ain: Oedfa Deulu 10.30yb
 Rhagfyr 4ydd: Mrs Nerys Griffiths 10yb; Parchedig Geraint Roberts Syh
 11eg: Gweinidog 10yb; Oedfa MOLI Syh
 Dydd Iau, Rhagfyr 15fed: Canu Carolau, Paned a Mins Pei yn yng nghwmni Parti Bytholwyrdd am 2 y prynhawn. Arweinydd y Carolau fydd Carys Edwards, Y Bala.
 18fed: Gwasanaeth Nadolig Y Plant Syh yn unig!
 25ain: Oedfa Gymun, Gweinidog 10yb



Capel Coch: Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul fore Sul, Hydref 23. Cafwyd gwasanaeth bendithiol, gyda phob un o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan, o’r babis lleiaf i’r plant hynaf. Cawsom gan Andrew Settatree stori iachau’r deg gwahanglwyf a’r un yn unig a ddaeth nôl i ddiolch i’r Iesu. Diolch i’r athrawon am baratoi a threfnu’r gwasanaeth, ac i bawb a ddaeth â ffrwythau i’w rhannu i rai o aelodau hŷn yr eglwysi.

Cinio Cawl: Yn dilyn y Gwasanaeth Diolchgarwch yn Capel Coch, trefnwyd Cinio Cawl i godi arian at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb a fu’n helpu i baratoi’r bwyd, trefnu’r festri, gweini, golchi llestri a chlirio. Roedd popeth yn hwylus, a thros 60 o bobl a phlant wedi cael eu bwydo mewn dim o dro. Roedd yn gyfle da hefyd i bawb gael sgwrs wrth y byrddau. Ni osodwyd pris i’r cinio, ond gwahoddwyd pawb i roi rhodd; a diolch i haelioni pawb, gwnaed elw o £670. Diolch hefyd i gwmni E W Pritchard, Llanberis, a dalodd am y cig a’r llysiau ar gyfer y lobsnows.

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Gwesty Dolbadarn Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

PENISARWAUN ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Harding - Judith.

Yn wylaid iawn y dymuna Eifion a genod y Winllan ddiolch i bawb yn ddiwahân am y talar o gariad a'u hamgylchynodd yn sgil colli Judith. Fe rennir y rhoddion o £2,500 er cof, rhwng Cronfa Ymddiriedolaeth Ymatebwyr Cyntaf Caernarfon a Pharti Dawnsio Gwerin y dre.

Dymuna Alwena, Karen, Ian a Gary ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn dilyn marwolaeth disymwth Bob - gŵr a thad cariadus. Casglwyd dros £500.00 tuag at elusen Muscular Dystrophy

Alwena Leadbitter, Glyn Arthur, Penisarwaun

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Medi oedd Mr Henry Jones, 25, Bryn Tirion gyda Rhif 42. Llongyfarchiadau.

Cinio Nadolig Cynhelir y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty'r Buckley, Biwmares, dydd Sadwrn, Rhagfyr 10fed. (Cynhelir Marchnad a Ffair Nadolig yn y Gwesty ar y diwrnod.) Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 12:15 o'r gloch. Enwau i Janet Ash (871265) Ann Paterson (872405) neu Liz Jones (872421) erbyn Tachwedd 26ain fan bellaf os gwelwch yn dda.

Diolch Dymuna Pwyllgor Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen ddatgan eu diolch am y swm o £150 a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Bydd yr arian o gymorth mawr i ni alluogi mynd â'r Pensiynwyr am ginio Nadolig eto eleni.

Gwellhad - Dymunwn wellhad buan i Henry Jones, 25 Bryn Tirion, sydd wedi treulio amser yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymuna yntau ddiolch i'w deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ato.

Ysgol Gymuned Penisarwaen Ymhen blwyddyn bydd Ysgol Gymuned Penisarwaen yn dathlu ei phen-blwydd yn 25oed ar y safle presennol. Bydd gweithgareddau yn cael eu trefnu yn ystod y misoedd nesaf i godi arian tuag at gronfa i ddiweddar yr ysgol ymhellach. Bydd dathliadau yn cael eu trefnu ar gyfer mis Hydref 2017. Byddwn yn falch o dderbyn syniadau, hen luniau ac atgofion ar gyfer yr achlysur.

Cafodd disgyblion yr adran iau fod yn rhan o Sioe Ryngweithiol gan Gwmni Mewn Cymeriad unwaith eto ddechrau'r mis. Yr Arglwydd Rhys oedd yr arwr y tro hwn -sef Sylfaenydd yr Eisteddfod gyntaf yn 1176. Cawsom brynhawn pleserus iawn yn dysgu am fywyd mewn Llys Cymreig yn ystod oes y tywysogion.

Bu Andrew Setatree yn cynnal gwasanaeth yma yn ystod y mis. Adeiladu tŷ oedd y stori y tro hwn. Diolch i Andrew.

Cynhaliwyd prynhawn difyr iawn yn yr ysgol yn sgwrsio dros banded a chacen dydd Llun, Hydref 17eg. Gwnaed elw sylweddol o £150 i gronfa deilwng Macmillan. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ddull i sicrhau pnawn llwyddiannus. Gobeithiwn gynnal un arall y flwyddyn nesaf.

Croesawyd gweithwyr ar ran yr NSPCC i gynnal gweithdy yn yr ysgol dydd Mawrth, Hydref 18fed. Byddant yn galw yma bob dwy flynedd.

Mae'r ysgol bellach wedi ymuno â chynllun Eco'sgolion. Rydym yn brysur ar hyn o bryd yn gweithredu'r cynllun yn yr ysgol. Daeth swyddog o Dŵr Cymru draw i gynnal gwasanaeth a gweithdy am bwysigrwydd arbed dŵr.

Bydd Mr Gwynant Parri yma bore dydd Mercher, Tachwedd 9fed, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw blentyn sydd ddim yn ddisgybl yn yr Ysgol alw draw yn ystod y bore. Bydd Ffair grefftiau yn cael ei chynnal yn yr ysgol nos Iau, Tachwedd 10fed, am 6 o'r gloch i godi arian tuag at gronfa'r ysgol. Bydd amrywiaeth o stondinau yma a chyfle i wneud ychydig o siopa Nadolig. Bydd disgyblion yr ysgol yn gwerthu cynnyrch i godi arian tuag at apêl y Cyngor Ysgol i brynu nwyddau sylfaenol i blant bach Nepal. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir y Ffair Nadolig eleni ar nos Fercher, Rhagfyr 14, am 6 o'r gloch, gwerthfawrogi yn ddiolchgar unrhyw gyfraniad tuag at y ffair.

Byddwn yn mynd â phlant BL 0 i BL 6 i weld "Raslas Bach a Mawr" yn Pontio Bangor pnawn dydd Gwener Rhagfyr 16.

Ysgol Sul Bosra Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Teuluol yn Eglwys Santes Helen fore Sul, Hydref 16, am 11 y bore. Dymunir diolch i'r rhieni a'r plant a gefnogodd a braf oedd cael gweld y plant yn cymryd rhan ac yn ymateb yn dda i'r Ficer Carol Roberts. Cawsant gyfle i

gludo'r nwyddau i lawr at yr allor ar gyfer Banc Bwyd Lleol a chawsant y profiad o weld y Cymun Bendigaidd yn cael ei weini. Dymunir diolch i'r swyddogion am y croeso a braf oedd gweld yr Eglwys wedi'i haddurno mor hydrefol.

Atgoffir pawb na chynhelir Ysgol Sul ar Hydref 30ain. Byddwn yn ailgychwyn fore Sul, Tachwedd 6ed.

Ar fore Sul y Cofio, Tachwedd 13eg, am 10 y bore byddwn yn cofio am y bechgyn o'r capel a syrthiodd yn y Rhyfel ac am 10.30 byddwn yn mynd i ymuno ag aelodau'r Eglwys am 11.00 wrth y Gofgolofn wrth Borth yr Eglwys. Gobeithir trefnu trip ar Drên Bach Rheilffordd Llanberis ym mis Rhagfyr.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr yw Karen Durber, Llys Addurn a Sheryl Ash, 1 Tai'r Bwthyn. Atgoffir yr aelodau fod Phyllis angen Catalog Webb Ivory i law erbyn Tachwedd 1af os gwelwch yn dda.

Bwriedir cynnal Te Bach Nadolig bnawn Mawrth, Rhagfyr 13eg, am 2.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned gyda eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau'r Pwyllgor. Darperir paned a mins pei. Croeso i rieni, teulu a ffrindiau i ymuno i ddathlu'r Nadolig.

Hydref 19 2017 bydd yr Ysgol Gymuned yn dathlu'i phen-blwydd yn 25ain. Gobeithir trefnu nifer o weithgareddau ar y cyd â'r Ysgol Gymuned i ddathlu'r achlysur gan obeithio casglu lluniau gan gyn-ddisgyblion, cyn-staff a'r staff presennol.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

HWYL YR WYL CCG
10/12/2016 | 10:30 - 14:30 Pontio, Bangor

GWEITHGAREDDAU HWYLIOG
AM DDIM I'R TEULU CYFAN!

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD



POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Trefi TaclusynrhoicymorthiymgyrchplantPenisarwaun



Mabli, Efa ac Elis o Ysgol Penisarwaun gyda Jonathan Neale o Gyngor Gwynedd

Daeth disgyblion Ysgol Penisarwaun at ei gilydd gyda menter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd yn ddiweddar i gynhyrchu arwyddion amgylcheddol arbennig i annog perchnogion cŵn i lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes.

Ymateb i'r broblem baw cŵn lleol oedd y plant ac roeddynt eisiau gwybod sut y gallant godi ymwybyddiaeth er mwyn taelo'r broblem. Yn dilyn y cydweithio yma, paratowyd arwyddion Trefi Taclus a bydd yr arwyddion yn cael eu gosod o amgylch yr ardal yn fuan i atgoffa pobl i ddilyn y neges syml "Bagiwch a Biniwch!"

Dyweddodd Swyddog Trefi Taclus, Jonathan Gwyn Neale: "Roeddwn i'n gallu dweud fod y plant yn hynod awyddus am eu bod oll yn awyddus i ddweud sut oeddynt yn ymwybodol am broblemau baw cŵn wrth chwarae yn y pentref. Y gobaith ydi y bydd yr arwyddion lliwgar newydd yn cyfleu'r neges i'r rhai sy'n troi llygaid ddall pan mae eu cn yn gwneud eu busnes."

Meddai'r Cynghorydd Sir Lleol, Hefin Williams: "Mae lluniau'r plant yn wych ac maent yn cyfleu'r neges 'Bagiwch a Biniwch' yn glir iawn. Rydw i'n gobeithio fod y rheini sy'n gyfrifol yn taro sylw ac y byddant yn glanhau ar ôl eu cŵn mewn ardaloedd cyhoeddus."

Toxicariasis

Mae nifer o gŵn wedi eu heintio a pharasitiaid all fod yn niweidiol i bobl, yn enwedig i blant. Clefyd yw Toxicariasis wedi ei achosi gan wyau pryfaid toxacara a gaiff eu trosglwyddo o gŵn i bobl drwy faw a gwastraff cŵn sydd wedi ei heintio. Gall y clefyd arwain at salwch neu hyd yn oed dallineb.

Yng Ngwynedd, mae gadael eich ci wastraffu mewn ardal gyhoeddus yn dramgwydd troseddol. Mae troseddwr yn agored i dderbyn dirwy o £100.

Dymuniadau Gorau Erbyn hyn yr ydym yn nhymor yr hydref a'r dydd yn tynnu i mewn. Er inni gael tywydd lled dda ar ddechrau'r mis mae hi erbyn hyn yn reit hydrefol, cawodydd trymion a chryn dipyn o wynt cryf a hwnnw yn andros o oer ac yn gwneud i ni sylweddoli ei bod yn amser cadw'r dillad haf a chael y rhai gaeaf allan. Drwy fynd i'r siopau mae yn hawdd gweld nad yw y Nadolig ddim yn bell, gan fod y siopau yn llawn o anrhegion Nadoligaidd.

Yn ystod gwyliau'r haf y mae llawer o gwyno wedi bod a dipyn o fynd a dod i'r ysbty. Gobeithio am adferiad iechyd llwyr i baw gan obeithio y bydd tymor yr hydref yn well na'r haf a gawsom.

Pen-blwydd Hapus Llongyfarchiadau mawr i Mrs Priscilla Williams, Wylfa, Pen Inclên, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 102 ar 24 Hydref. Mae yn cael gofal arbennig gan Eirwen ac Alwyn; yn hapus iawn yn ei bywyd bach ei hun ac yn mwynhau bob dydd. Mae Alwyn a hithau yn deall ei gilydd yn wych. Does neb fel Als ganddi. Diolch i Dduw am gael un fel Alwyn sydd yn fodlon anghofio popeth gan fod ei fam yn dod yn gyntaf bob tro. Yn awr, Mrs Williams edrych ymlaen am iechyd a'r 103.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER CALLENIER

MENTER

CYNGOR GWYNEDD

ERDF

Ynyswylfa Cymru
Welsh Government

Erwip & Chymro: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cwmni Ddiwydiol a Chymunedol
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

MAWRTH 8 TACHWEDD 7.00yh

TAITH GERDDED Y NÔS:

GWYLIO'R SÊR: CYFLWYNIAD I'R COSMOS (OS YN GLIR)

TAITH YSBRYDION Y FRO (OS YN GYMYLOG)

CYCHWYN: EGLWYS PENISARWAUN. EITHA HAWDD.

MERCHER 16 TACHWEDD 10.00yb

CRWYDRO PENISARWAUN (2 filltir)

CYCHWYN: EGLWYS PENISARWAUN

HANESION YN CYNNWYS PYTIAU O'R LLYFR 'BRO DEINIOL' (AP IOLEN)

EITHA HAWDD. SGIDIA CERDDED.

GWENER 25 TACHWEDD 10.00yb

ABEROGWEN: BYWYD GWYLLT, BRWYDR Y DALAR HIR A GORSAF AWERYNNAU COLL (3-4 milltir)

CYCHWYN: GWARCHODFA NATUR ABEROGWEN

CYMEDROL. ANGEN SGIDIAU CERDDED. LLWYBRAU.

CERDDED NORDIG

SESIYNAU YN CYCHWYN AM 10.00yb. CROESO I BAWB.

HWYL A CHYMDDEITHASU TRA'N CADW'N HEINI. £4 Y SESIWN.

3 TACHWEDD: LON LAS. CWRDD YN MORRISONS CAERNARFON

10 TACHWEDD: TREBORTH. CWRDD TU OL I'R ANTELOPE INN.

17 TACHWEDD: LLANFAIRFECHAN. CWRDD GER Y CAFFI AR Y PROM.

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Sefydliad y Merched Ymhlith gweithgareddau diweddar cafwyd sgwrs gan Gordon Topps o Heddlu Gogledd Cymru yn egluro ei waith gyda Chŵn yr Heddlu. Daeth â'i gi gydag ef i'r cyfarfod.

Yn y Ganolfan yn Llanberis, cafwyd Arddangosfa Goginio gan Gareth Jones, Llanfairfechan, ynghyd â Gosod Blodau gyda bwffe gwerth chweil i orffen y noson. Roedd y cyfarfod hwn dan nawdd Grŵp Eryri wedi ei drefnu gan Pat Jones, Cerid Mc Kinnon a Pat Parry.

Cafwyd noson ddiwedd Medi yng nghwmni Dafydd Roberts, yr Amgueddfa Lechi, Llanberis, ac yn ystod y cyfarfod, llongyfarchwyd Elinor Williams ar ennill ysgoloriaeth Jenny Hughes i fynd i Blas Tan y Bwlch yn ystod mis Tachwedd.

Cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor yr Hydref yn Ysgol Brynrefail gyda Gwenan Gibbard yn rhoi datganiadau ar y delyn.

Yng nghyfarfod Hydref o'r gangen leol croesawyd Derek Roberts fel y siaradwr gwadd. Cafwyd sgwrs ganddo am waith Gwylwyr y Glannau.

Cyngor Cymuned

Ar hyn o bryd nid oes cynghorydd yn cynrychioli ward Brynrefail ar y cyngor yn dilyn ymddiswyddiad Carolyn Roberts. Mae'r cyngor felly yn apelio ar unrhyw un sydd â diddordeb o gynrychioli y ward i gysylltu â'r clerc Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen. Mae'n bwysig fod pob ardal yn cael ei chynrychioli yn llawn ar y cyngor.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Hydref

Cynhaliwyd Oedfa dan nawdd yr aelodau nos Sul, Hydref 9fed. Roedd y Gwasanaeth yn baratoad ar gyfer yr Ŵyl Ddiolchgarwch. Cafwyd cyfraniadau pwrpasol a diffuant mewn mawl, darlleniadau a gweddiau. Er fod newid mawr wedi bod ym mhoblogrwydd yr ŵyl, da oedd cael uno yn y diolch a chael mawrygu blas o'r gorffennol yn yr addoli. Cymerwyd rhan gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones ac Einir Gwyn, Lowri Prys Roberts, Iris Rowlands, Robert John Williams a Dafydd Ellis.

Nos Sul, Hydref 16eg, y pregethwr gwadd yn yr Oedfa Ddiolchgarwch oedd y Parch Trefor Jones, Caernarfon. Cafwyd neges rymus ganddo o Lyfr y Salmau.

Y Gymdeithas

Ar ddiwrnod hyfryd o Hydref, pleser oedd cael teithio tua ardal y Bala am ein taith flynyddol eleni i gloi tymor o weithgareddau. Ein cyrchfan gyntaf oedd 'Byd Mari Jones' yn Llanycil. I sawl un fu ym mynwent Eglwys Llanycil yn y gorffennol, buan y sylweddolwyd fod newidiadau cyffrous wedi cymryd lle ar y safle yn ddiweddar. Tu allan i fur y fynwent sefydlwyd canolfan

newydd gydag adnoddau i astudio hanes y wraig enwog a'r cysylltiadau a roddodd fodd maes o law i sefydlu Cymdeithas y Beibl Frutanaid a Thramor. Cafwyd croeso cynnes gan Nerys Siddall, Rheolwr a Swyddog Addysg y Ganolfan a amlinellodd drwy gyfrwng fideo sut y bu i Gymdeithas y Beiblau bwrcasu Eglwys Llanycil na fu yn fan addoli ers rhai blynyddoedd a'i gweddnewid i fod yn amgueddfa arbennig iawn.

Hyfryd oedd canfod fod llawer o'r elfennau gwreiddiol yn yr eglwys wedi eu trysori - fel yr organ bib, y llawr teils lliwgar ac ardal yr allor, tra bod y gweddill gyda naws hyfryd yn arddangosfa drawiadol o hanes y ferch sydd â'i henw yn fyd-eang erbyn hyn. Wrth ymlwybro yn y fynwent, nid oedd modd osgoi meini coffa y Dr Lewis Edwards, Dr Thomas Charles, Bob Robert Tai'r Felin, tad Betsi Cadwaladr a'r genhades Gwen Rees Roberts. Yn dilyn, mwynhawyd pryd blasus yn y Bala gan ymweld â Chapel Tegid a'r gof golofn hardd o Thomas Charles, Capel yr Annibynwyr a'r cysylltiadau hanesyddol a chael cip ar Goleg y Bala. Cyn troi am adref cafwyd orig o gymdeithasu ym Mhorthmadog. Mae ein diolch yn ddiffuant iawn i Dafydd Ellis, ein hysgrifennydd ymroddgar am fanylder y paratoi. Cawsom ddiwrnod i'w drysori.

Oedfaon Tachwedd am 5 yr hwyr

6: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

13: Gwasanaeth Sul y Cadoediad - Canon Idris Thomas, Deiniolen

20: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

27: Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk

Ysgol Gwaun Gynfi

Ymweliadau

Mae llawer o blant wedi bod ar ymweliadau yn barod y tymor yma. Bu plant dosbarth Mrs Williams yn cymryd rhan mewn prosiect peillio Polli:Nation gydag Anna Williams sydd yn cydweithio gyda ni ar yr ardd yn yr ysgol. Roeddent yn dysgu pa blanhigion yw'r gorau am ddenu pryfaid i beillio.

Bu'r plant hefyd yn gweithio ar y prosiect "Llwybr Llechi" er mwyn creu gwybodaeth i gerddwyr ar y llwybrau. Roeddynt yn gweithio gydag Anita Diamond sydd yn gyfrifol am y prosiect.

Bu Sian Shakespeare yn trafod yr un prosiect gyda blwyddyn 6. Byddant yn trefnu noson Stwff a Straeon am y chwarel yn ystod mis Tachwedd pan fyddant yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ddod i siarad gyda hwy am fywyd yn y chwarel. Mae noson hon ar y cyd gyda Band Deiniolen.

Bu plant y dosbarth Meithrin ar ymweliad â choedwig Glan Faenol ar Hydref 10ed. Roeddent yn cerdded trwy'r goedwig i weld ble mae "Caleb" yn byw. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn ar eu trip ysgol cyntaf un!

Prosiectau eraill

Ar ôl y Nadolig bydd disgyblion blwyddyn 6 yn cymryd rhan ym mhrosiect "Cadwyn Heddwch". Mae'r prosiect mewn cyd weithrediad â Llenyddiaeth Cymru. Bydd y plant yn cyd weithio gyda'r prifardd Ifor ap Glyn ac yn astudio hanes y Rhyfel Byd Cyntaf o safbwynt hanes lleol gyda phwyslais ar heddwch.

Mae Anna Williams o'r Ymddiriedolaeth Natur wedi bod yma'n parhau'r gwaith ar yr ardd. Mae wedi helpu i greu gardd berlysiu yn yr ysgol. Bydd yn dychwelyd eto yn o fuan i blannu bylbiau ar gyfer y gwanwyn.

Mae'r ysgol wedi ennill grant i weithio fel Ysgol Greadigol Arweiniol gyda Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n grant o £10,000 ac yn cael ei wario dros ddwy flynedd. Drwy'r prosiect cyffrous yma bydd yr ysgol yn datblygu buarth yr ysgol gan greu ardaloedd chwarae a gemau buarth i'r disgyblion fwynhau. Bydd sgiliau mathemategol, celf, creadigol, llafaredd a'r Cwricwlwm Cymreig yn cael eu datblygu. Mae'r Cyngor Ysgol yn hysbysebu am Ymarferwyr Creadigol i weithio gyda'r ysgol ar hyn o bryd a'r prosiect yn cychwyn ym mis Ionawr.

Wythnos Ffitrwydd

Yn ystod yr wythnos Hydref 17-21 mae plant yn ceisio rhedeg cyfanswm o 150 milltir o amgylch yr ysgol. Maent hefyd yn codi arian i brynu offer chwaraeon newydd ar gyfer yr ysgol. Mae'r plant wedi rhedeg 226 o filltiroedd!! ac wedi hel £570 hyd yn hyn. Da iawn chi i gyd.



Diolch Dyma dim pêl-droed Dan 12 Clwb Ieuencid Deiniolen yn eu cit newydd. Diolch i Gwmni Garage Arfon, Clwt-y-Bont, am noddi'r cit. Mae pawb yn edrych yn smart iawn. Pob lwc i chi, hoga, am weddill y tymor!

Cyngor Cymuned Ar hyn o bryd mae ward Deiniolen un cynghorydd yn brin yn dilyn ymddiswyddiad Geraint Hughes. Cynrychiolir pentref Deiniolen gan Elfed Williams ac Idris Thomas. Mae Gwilym Williams yn bwrw golwg dros ardal Clwt y Bont. Mae'r cyngor felly yn apelio ar unrhyw un sydd â diddordeb o gynrychioli y ward i gysylltu â'r clerc Eleri Bean, Bwthyn Isaf. Mae'n bwysig fod pob ardal yn cael ei chwota llawn o gynghorwyr.

Eglwys Crist Llandinorwig Dydd Mercher, Hydref 12, aeth aelodau Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist ar eu taith flynyddol gan aros am seibiant ym Mhorth y Gest, cyn teithio ymlaen am Gricieth, lle roedd Rheolwr y Bad Achub, Peter Williams, yn aros amdanynt.

Aeth â ni i'r oruwch ystafell, lle y siaradodd am hanes sefydlu y Bad Achub ac am wrhdyri criw y Bad yn achub pobl a phlant o afael y môr. Eglurodd sut oedd defnyddio yr offer diweddaraf, sydd o gymorth enfawr i griw y Bad pan maent allan ar alwad frys, chwe munud yn unig a gymerir i lansio'r Bad ers pan ddaeth yr alwad am gymorth, sydd yn anhygoel.

Gan ei bod yn ddiwrnod mor braf cafwyd seibiant wrth y môr ac yna taith o gwmpas Llanystumdwy, cyn mynd i siop enwog Sglodion a Physgod Cricieth. Yna troi am adref wedi cael pnawn pleserus o hydref. Dydd Sul, y 6ed o Dachwedd, am 3.00 y pnawn cynhelir y Cymun Bendigaid gyda'r Canon Idris Thomas. Croeso i bawb ymuno.

Diolchgarwch Dathlwyd yr Wyl Gynhaef eleni ar ddydd Sul, Hydref 16eg gyda'r gwasanaeth yng ngofal ein Ficer, y Barchedig Ddr Carol Roberts, gyda chymorth Ms Jennifer Roberts, ein gwraig wadd. Cymerodd plant yr Ysgol Sul ran amlwg iawn yn y gwasanaeth fel arfer drwy lefaru, canu a gwnaethant ffurf Croes gyda'r llechi yr oeddynt wedi ysgrifennu arnynt yn dweud beth oeddynt yn dymuno diolch i Dduw amdano, a hefyd cyflwynasant eu rhoddion o lysiau, ffrwythau a thuniau. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd llyfrau i'r plant am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul a hefyd Cwpan Goffa Lowri Pritchard i Deion ac Efa Jên am gadw presenoldeb.

Gwerthfawrogir yn fawr iawn gyfraniad y plant a chefnogaeth eu rhieni.

Mae'r plant hefyd i'w canmol a'u llongyfarch am eu cyfraniad a'u llwyddiant yn Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch yn ddiweddar.



Injan Fawr Glynrhonwy

Yn Llyfr Log Ysgol Glanmoelyn, Llanrug ddiwedd Ionawr a dechrau Chwefror 1863 ceir cofnodion (yn Saesneg, wrth gwrs, yn ôl trefn yr oes honno) yn sôn am y “Glynrhonwy engine”. Ar gyfer Ionawr 30ain ysgrifennwyd: “The Glynrhonwy engine on this day went for the first time to Llanberis and consequently the attendance at 9 o’clock was very small; most of the scholars made their appearance at ten.” Yna ar Chwefror 2il ceir “the scholars late in the afternoon, being attracted to the Quarry engine.”

Beth felly oedd yr injan hon oedd yn amharu cymaint ar bresenoldeb a phrydlondeb plant Llanrug yn yr ysgol? Mae’r ateb i’w gael ym mhapurau newyddion y cyfnod.

W. Cragg perchennog Chwarel Glynrhonwy fu’n gyfrifol am archebu’r injan – fe’i gelwir yn traction engine – gan gwmni o Lundain, ond ei bod wedi ei haddasu gan gwmni Thomas a de Winton yng Nghaernarfon. Mae’n debyg mai ar y trên y daeth o Lundain i Gaernarfon, ond does dim yn egluro’r daith honno. Injan stêm oedd hon oedd yn gallu tynnu pwysau o ugain tunnell, er fod y cwmni’n argymhell cadw’r pwysau yn ddeuddeg tunnell neu lai. Honnid y gallai’r injan hon dynnu pwysau o’r fath i fyny unrhyw allt, pa mor serth bynnag. Mae’n ymddangos mai’r rheswm am hyn oedd ei holwynion arbennig. Drwy dynnu un lifar roedd yn bosib troi’r olwynion crwn, haearn yn olwynion efo dannedd, a’r dannedd rheini yn gafael yn y ffordd wrth ddringo gelltydd. Rhaid cofio, wrth gwrs, nad oedd y fath beth a choltar yn bod ar ffyrdd y cyfnod.

Rhoddydd prawf ar allu’r peiriant rhyfeddol hwn yng Nghaernarfon yn gynnar ym mis Ionawr, gan gychwyn o waith de Winton ar y Cei Llechi a dringo i fyny Gallt y Castell i’r Maes. Roedd torf anferth wedi hel i wylïo’r peiriant yn methu! Ond nid felly, oherwydd gyda defnydd y ‘dannedd’, ni chafodd unrhyw drafferth i’w dringo. Llusgodd ymlaen wedyn i fyny Stryd y Llyn ac am Bont Saint cyn

troi i lawr Lôn Santes Helen yn ôl am waith de Winton. Bu’n rhaid iddi aros ar y lôn honno i gael mwy o ddŵr. Roedd yn teithio – heb llwyth – ar gyflymder o tua 5 neu 6 milltir yr awr.

Yn dilyn yr arddangosfa hon yn y bore, ymlwybrodd i Lanberis yn y pnawn.

Cyn diwedd y mis roedd yn barod i roi cynnig ar dynnu llwyth o lechi o Chwarel Glynrhonwy i borthladd Caernarfon. Cychwynnodd o Lanberis tua naw o’r gloch y bore, a dau dryc llawn llechi o’i hôl; pwysau o ddeuddeg tunnell. Cyrhaeddodd Gaernarfon tua pedwar o’r gloch y pnawn! Does dim cofnod o sawl gwaith y bu’n rhaid aros i adnewyddu ei chyflenwad dŵr.

Y farn gyffredinol oedd fod y daith wedi profi unwaith ac am byth ei bod yn bosib i injan stêm anferthol ddefnyddio’r ffordd o Lanberis i Gaernarfon.

Ond yr oedd anfaiteision. Oherwydd mai gyda ceffyl a throl y cai mwyafrif nwyddau’r dyffryn eu cario (gan gynnwys llechi – ar wahan i rai Chwarel Dinorwig), roedd yn ofynnol i’r injan gael ei diffodd bob tro y deuai i gyfarfod ceffyl. Roedd ei sŵn mor ddychrynlyd nes peri i geffylau rusio! Anfantais arall oedd cyflwr y ffordd ar ôl i’r injan fynd heibio, nid oherwydd olwynion yr injan ei hun, ond oherwydd y pwysau llethol yn y tryciau tu cefn, oedd yn creu rhychau yn wyneb y ffordd.

Does ryfedd fod disgyblion Llanrug yn colli ysgol er mwyn gwylïo’r rhyfeddod hwn yn ymlwybro heibio!

Ond am ba hyd y bu’n gweithredu? Erbyn mis Mai, roedd ynadon Caernarfon ar gais trigolion yr ardal yn anfon deiseb i’r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gael gwahardd y ‘traction engine’ oddi ar ffordd Caernarfon-Llanberis. Bydd angen mwy o chwilio i weld beth yn union fu’r ymateb i’r cais hwn.

Cwt tren chwarel - tybed?

Derbyniwyd y llun hwn gan Gareth Roberts (Cerdded a Darganfod). Mae’n dangos adeilad sy’n nodweddiadol o adeiladwaith Stad y Faenol. Ond ble roedd hwn? Mae’r arysgrif o dan y llun yn datgan “Padarn Railway, Office/Weighbridge Penisarwaen” ! A’r dyddiad yw 1962. Ond wrth gwrs, fu rheilffordd Chwarel Dinorwig erioed drwy bentref Penisarwaun – os nad oedd pwy bynnag fu’n gyfrifol am y disgrifiad yn cyfrif yr ardal i’r de o’r pentref, rhwng Craig y Dinas a Brynrefail. Ond doedd dim ffordd a giat ar ei thraws yno. Felly, dyna’r dirgelwch. Ble roedd yr adeilad hwn a pha bryd y cafodd ei ddymchwel? Rhowch wybod.



Padarn Railway - Office/Weighbridge at Penis ar Waen 1962

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Hyn ac Arall

Digwyddiadau Trist, ac Un sy'n Llawn Calondid a Diolch Byth am Hynny!

Dydd Mawrth, Awst 9fed eleni, bu ond y dim i drychineb ddigwydd, a hynny ar yr Aran, ger Rhyd-ddu, pryd yr aeth hofrennydd RAF y Fali i drafferthion a glanio, cyn mynd ar dân. Drwy ryw ryfedd wyrth, dihangodd y pum teithydd oddi ar fwrdd yr hofrennydd yn ddianaf hefyd, diolch byth am hynny.

Nid felly'r hanes ym mis Awst y flwyddyn 1952. Fel hyn y croniclir yn newyddiadur Yr Herald Cymraeg a'r Genedl am Awst 187fed.

Dydd Llun diweddaf, a storm o wynt a glaw yn ei hanterth, cwympodd awyren Anson perthynol i'r RAF i'r llawr ar lechwedd yr Wyddfa uwchlaw Clogwyn du'r Arddu, a lladdwyd y tri dyn a oedd ynddi. Yr oedd wedi disgyn ar draws rheilffordd trên bach yr Wyddfa, a phan gyrhaeddodd partion achub yn cynnwys meddygon ac aelodau o'r heddlu i'r fan, cyn pen yr awr ar ôl y drychineb, nid oedd yn aros ond pentwr o fetal plygiedig a gweddillion yn mud losgi. Yr oedd y tri dyn wedi eu lladd ar amrantiad, ebe Dr Vyrnwy Jones, Llanberis, a oedd wedi myned i'r fan ar unwaith.

Trychineb! Ond dwy flynedd ynghynt ... ylwch! Gadewch imi ddyfynnu'n ei grynswth yr hyn a geir yn newyddiadur wythnosol Y Cymro, sef rhifyn Mai Sed y flwyddyn 1950, a hynny ar y dudalen flaen: Bu llawer o sôn yn y Wasg Saesneg yn ystod y dyddiau diwethaf am aelodau o staff Gwesty'r Wyddfa a adawyd ar gopa'r Wyddfa heb fwyd, glo na chymorth... Yng ngeiriau Mr Williams, rheolwr y rheilffordd ... 'Mae'n amlwg ei bod hi'n ddrwg ar y papurau yma am newyddion...'

Gwir bod eira mawr ar ben yr Wyddfa, ond mae eira mawr ar ben yr Wyddfa yn beth digon cyffredin er ei bod yn fis Mai.

Gwir hefyd fod y trên wedi methu â mynd ymhellach na Bwlch yr Hetiau un dydd, a'r Clogwyn ar ddydd arall. Ond y mae hogiau y rheilffordd yn gofalu am 'drigolion y copa' ac ni rwystrodd ychydig o eira ar y rheilffordd hwynt i gario glo a bwyd i'r gwesty...

Dydd Mawrth, teithiodd Gohebydd, ynghyd â'r dyn camera, ar ran Y Cymro, i fyny yn y trên bach a elwir 'Enid'. Cynhwysir hefo'r erthygl nifer o ffotograffau du a gwyn; un ffotograff o'r Pengweithiwr T. Alun Jones, yn gafael mewn polyn teliffon; Mrs Nellie Williams mewn ffotograff arall wrthi'n darparu cinio ar ben yr Wyddfa; Hugh Bryan wedyn yn gofalu bod gwres yng ngwesty'r mynydd uchaf yng Nghymru, a Kathleen Owen efo Elinor Jones yn estyn cwpaned o de, ie! i fyny fan 'na ar gopa'r mynydd i Ben Jones a Thomas Griffith, dreifar a thaniwr y drên fach. Bendigedig wir!

Clirio'r eria oddi ar y cledrau? Do wir i chi! Ac fel hyn yn gymwys y sonnir am y rhai a fu wrth y gwaith llafurus hwnnw:

Mae gan y 'Trên Bach ei Chommandos ei hun i wneud y gwaith – hogiau Llanberis a wyddant am bob modfedd o'r lein: T. Alun Jones, y pengweithiwr, Richard Jones, Tommy Morris a Tom Williams, yr olaf yn 69 oed ac yn gampwr ar glirio'r eira.

A hon i orffen!

Ar ein ffordd i gopa'r mynydd, meddai un ohonynt, sef un o'r clirwyr eira, 'Mae'r staff yn y gwesty heb yr un crystyn; mae nhw wedi byta'r dodrefn yn barod; yrwan mae nhw wedi dechrau byta'i gilydd.'

'Ydyn, siŵr,' meddai Tom Williams.

Ie! y mae'n rhaid wrth hiwmor! Rhywbeth unigryw a berthyn i ni fel Cymry, er gwaethaf yr amgylchiadau, a'r eira, a'r holl erwinder? Ie! debygaf i!

Y tro nesaf, bwriadaf olrhain rhywfaint am yr hyn a ddigwyddodd gant ac ugain mlynedd yn ôl, sef dydd Llun, Ebrill 6ed y flwyddyn 1896, pryd yr agorwyd yn swyddogol reilffordd fach yr Wyddfa.

Dafydd Gruffydd Ifan



Royal Victoria Hotel LLANBERIS

www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
 Snowdonia

Defaid Cadw

Roedd ffair Gŵyl y Grog Caernarfon yn boblogaidd iawn yn yr amser a fu. Dyma pryd y byddai ffermwyr llawr gwlad yn cyfarfod â 'hogia'r defaid bach' o'r mynyddoedd, neu y 'fisitors' fel y gelwid hwy yn ardaloedd Eifionydd, i drafod telerau a 'tharo bargaen' ar gyfer rhentu tir pori dros y gaeaf. Byddai'r dadlau rhwng y ddwy ochr ar brydiau yn danllyd a ffyrnig, yn enwedig pan fyddai ffermwr o'r tir isel yn mynnu dal am bris afresymol ac yn gwrthod ildio. Mae'n wir dweud i'r rhai mwyaf penboeth a byr eu tymer herio'i gilydd yn fygythiol, hyd yn oed at daflu dynau. Clywais ddweud i fy nhaid ddod adref o'r ffair tua'r flwyddyn 1914 wedi cael andros o sioc tra'n bargeinio â ffermwr am dir pori'r gaeaf. Roedd y dyn yn dal am bedwar swllt a chwe cheiniog (4s/6d) y tymor, ac yn gwrthod gosod am lai. Roedd fy nhaid wedi arfer cael y lle am dri swllt a chwe cheiniog (3s/6d). Codiad o swllt mewn blwyddyn, swm sylweddol yr adeg honno.

Ar y trên o Afonwen i Chwilog y deuai llawer o'r ffermwyr llawr gwlad i'r ffair. Llauer ohonynt wedi hel i'r un cerbyd i drafod prisiau ar faint o rent i'w godi ar y 'fisitors'. Taerai rhai ymysg ei gilydd gan fynnu eu bod hwy yn haeddu mwy o dâl na'r lleill gan, yn un peth, fod ganddynt lawer fwy o aceri. Roedd hyn yn golygu mwy o borfeydd ac felly mwy o fwyd ar gyfer y defaid cadw. Yn ystod y dadlau clywyd ambell 'weipan' sbeityld yn cael ei thaflu fel, 'Ylwch! Da chi fel gelen ddeuben yn trio sugno gwaed oddi ar hen gi!' neu 'Gawsoch chwi hyd i'r cryman hwnnw oeddech wedi ei golli y llynedd?'

Ar ddiwrnod y ffair deuai 'fisitors' y tir uchel, ardaloedd fel Nant Peris, Llanberis, Deiniolen, Waunfawr a Betws Garmon i lawr i'r dref i gyfarfod â'r ffermwyr llawr gwlad i drafod a bargeinio. Yn y tafarnau y byddai llawer yn cwrdd gan, efallai, y byddai'n haws yr adeg honno gytuno a 'tharo bargaen' wedi cael dipyn o 'olew ar y cocos'.


Dyddiau Diolchgarwch y byddai'r 'defaid bach', neu'r 'defaid cadw' yn symud i fwrw'r gaeaf cyn dychwelyd i'r ucheldiroedd yr wythnos gyntaf yn Ebrill. Nid mewn lori fodern fel y mae heddiw y cludwyd hwy, ond drwy gerdded ffyrdd caled a throellog. Golygai hyn daith hir a blinedig, yn enwedig i ardaloedd Eifionydd fel Llanybi, Llanarmon a Chwilog. Un peth oedd mai gwaith sychedig iawn oedd cerdded y lôn bost, a rhaid oedd cael ambell saib ar hyd y ffordd i gael tropyn i wlychu ychydig ar y gwddw. Tri lle pwysig y pryd hynny fyddai yr 'Inn' Pantglas, 'Brynkir Arms' a'r 'Goat' Glandwyfach. Byddai amaethwyr Eifionydd yn dod i gyfarfod y 'fisitors' i'r lleoedd hyn ac, ar ôl rhyw ddiferyn go helaeth o'r 'wermod' a thamaid i'w fwyta, mynd am y stesion i ddal y trên am adre. Wrth i'r trên gychwyn byddai'r rhan fwyaf wedi syrthio i gysgu, yn ogystal â'r hen gŵn defaid ffyddlon wrth eu traed ar ôl diwrnod caled o waith.

Deuai'r Sed o Ebrill yn fuan i hogia'r mynydd, ond nid mor fuan i hogia'r gwaelodion.

Ffair arall bur bwysig fyddai Ffair Aeaf Caernarfon, fyddai'n cael ei chynnal ar y Gwener a'r Sadwrn cyntaf ym mis Rhagfyr. Ffair anifeiliaid fyddai ar y dydd Gwener gyda chadwyn fawr wedi ei gosod o gylch y Maes rhag i'r gwartheg faeddu'r pafin. Cyn gynted ag y byddai'r ffair drosodd, deuai gweithwyr y 'Corporation' i'r golwg gyda 'car dŵr' a 'brws troi' arno yn cael ei dywys gan geffyl. Peiriant hwylus yr adeg honno i olchi a glanhau lle byddai ambell fuwch wedi codi'i chynffon. Drannoeth, ffair tipyn o bopeth oedd yn cael ei chynnal, a'r Maes yn llawn stondinau. Deuai llawer o chwarelwyr o ardaloedd Llanberis, Deiniolen a'r Waunfawr i lawr i'r dre ac i Neuadd y Farchnad (Yr Hôl). Yn y fan honno y byddai menyn yn cael ei werthu, 'menyn pot' o wahanol ffermydd wedi ei hel yn ystod yr haf ar gyfer y ffair. Gosodwyd mydylau o'r menyn wyneb yn isaf ar y cownter, gyda'r gwerthwr yn cymell y cwsmer i flasu. Byddai bargeinio caled yn dilyn, a phan fyddai un wedi ei blesio a chael menyn da, byddai'n gofyn i'r masnachwr gadw pot neu ddau o'r fferm neu o'r lle y gwnaethpwyd. Faint tybed o chwarelwyr fyddai'n mwynhau brechdan a menyn pot arni amser cinio yn y caban.

Gwilym Morris Jones

Bontnewydd (Waunfawr gynt)



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
 (01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
 William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy



Llongyfarchiadau

Genethod sydd wedi cael eu ddewis ar gyfer carfan pêl-rwyd dan 14 Ysgolion Arfon

Elin Thomas BI9
Elain Williams BI9
Natalie Meek BI9
Abbi Parkinson BI8
Georgia Parkinson BI8

Cwis Pop C2

Roedd criw Cwis Pop C2 Ysgol Brynrefail yn brysur paratoi yn ystod yr wythnos i herio Ysgol Maes y Gwendraeth nos Wener, Medi 16eg yn rownd gyntaf y Cwis Pop C2 ar Radio Cymru. Roedd y pedwar sef, Rhys Grail, Gwenno Parry, Elin Owen a Lisa Hughes yng nghwmni Ifan Davies a Magi Dodd, cyflwynwyr y rhaglen yn stiwdio Radio Cymru ym Mangor. Teimlodd y pedwar dan bwysau gan gofio enillodd y tîm o Ysgol Brynrefail dwy flynedd yn ôl yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen yn y rownd derfynol. Roedd y pedwar yn cael eu ysgogi gan gefnogaeth ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y cwis gan fanciau lleol a'u ffrindiau. Llongyfarchiadau i'r pedwar am ennill y cwis o 210 o bwyntiau i 125 o bwyntiau, ac ymlaen i'r rownd nesaf!

Pencampwyr Ceufadu Ysgolion Gogledd Cymru

Bechgyn blwyddyn 7a 8

Cameron Shaw, Hugh Buck Jones, Ethan Keirnan

Ar ddiwrnod braf o Hydref daeth ysgolion Gogledd Cymru i gystadlu mewn cystadleuaeth ceufadu ar Lyn Padarn yn Llanberis.

Trefnwyd y gystadleuaeth gan y Bartneriaeth Awyr Agored mewn partneriaeth gyda Canw Cymru a Swyddogion 5x60.


Roedd y bechgyn wedi bod yn mynychu sesiynau ceufadu sydd wedi cael eu trefnu gan swyddog 5x60 ar ol ysgol dydd Mawrth ac yn amlwg wedi datblygu hyder i brofi sgiliau cryf a chyfforddus mewn ceufad wrth gystadlu.

Roedd y gystadleuaeth yn gryf gyda ennillwyr 2015, Tywyn yn yr un categori ond llwyddodd bechgyn Brynrefail i gyrraedd y brig gyda canlyniadau gwych gan y tri.

Bydd aelod o bwyllgor canw cymru yn dwad i gynorthwyo gyda sesiwn yn y dyfodol agos i ddewis unigolion ar gyfer eu datblygu ymhellach yn y maes gyda'r gobaith o gael disgyblion yn cyrraedd carfan Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn!





Yn ystod Gorffennaf cafodd wyth disgybl bl. 11 y cyfle i fynd ar alldaith terfynol Gwobr Efydd Dug Caeredin yn ardal Pen Llyn ar hyd cymal o Llwybr Arfordir Cymru. Cawsom ein rhannu i ddau grwp, mewn 1 grwp oedd, Ian Thomas, Aaron Hughes, Mabon Williams a finnau, Sion Drummond. Aelodau y grwp arall oedd Lee Roberts, Joe Williams, Matthew Birch ac Owain Lewis.

Ar y diwrnod cynta roeddem yn cerdded o Fryncoes i Aberdaron oedd yn belter o 13 km, gan gario ein holl offer gweryslla, dillad, bwyd ac offer coginio yn ein sachau cefn. Ar ambell i gymal roedd Mr Sion Jones a Dewi Emlyn y nein cyfarfod i wirio ein bod yn iawn ac y nein cwestiynnu ar ein gwaith map – I wneud yn siwr nad oeddem am fynd ar goll dwi'n meddwl!

Ar ddiwedd y daith y diwrnod cyntaf roeddem yn gweryslla ym maes campio Caerau yn Aberdaron lle roedd Sioned yr aseswraig yno'n disgwyl amdan a ni. Roedd hi'n edrych os oedd a ni'n gallu codi ein pebyll yn effeithiol ac yn gallu paratoi a choginio ein bwyd mewn ffordd saff a chall.

Ar y ail ddiwrnod roeddem yn cerdded o Aberdaron i draeth Porthor. Ond cyn i ni gerdded roedd rhaid paratoi brecwast yna pacio holl bethau gweryslla a'u cadw yn y sachau cefn. Roedd y daith yr ail ddiwrnod yn 11 km o hyd ac yn treulio rhywfaint ar llwybr yr Arfordir ond yn cynnwys cymal yn cerdded fyny Mynydd Anelog cyn ail gyfarfod llwybr yr arfordir ac ymlaen i Borthor.

Wythnosau cyn yr alldaith oni ddim eisiau cymeryd rhan gan nad oeddwn yn hyderus mod i mynd i lwyddo ond ar ôl sawl sgwrs efo Mr Sion Jones a Mam ges i fy mherswadio a llwyddo! Oedd y llwybra naethom troedio yn sialens a hanner gan i mi deimlo mod i unai'n dringo eltydd mawr neu'n mynd lawr nhw. Ar ben hynny mi fuasai'n hawdd mynd ar goll gan fod sawl llwybr yn croesi ei gilyss llawer gwaith.

Mi wnes i fwynhau fy hun yn arw a roedd hi'n grêt cael gweld rhan helaeth o arfordir Cymru – lawr Bae Ceredigion wrth cerdded ar llwybr arfordir Cymru. Y peth gorau am yr alldaith oedd y cymal olaf, sef cerdded i Borthor gan ei fod yn gymal byrach na'r diwrnod cyntaf, llwybrau haws i ddilyn, golyfeydd gwych a thywydd brafach. Golygodd hyn nad oeddem mor flinedig yn cyrraedd pen y daith. Sgiliau gorau nes i ddatblygu oedd arwain y grwp am wahanol gyfnodau drwy ddefnyddio tactegau gwahanol i godi ysbryd yr hogia pam roeddem yn stopio i orffwys a cael tamaid i fwyta. Sgil arall pwysig nes i ddatblygu oedd sut i ddarllen map yn gywir fel mod i'n gallu dweud wrth gweddill y grwp lle roeddwn ni ar y pryd a lle roeddem yn mynd at o nesaf.

Fy nghyngor i blant a phobl ifanc eraill yw os cânt y cyfle i wneud y alldaith – gan ei fod yn brofiad bywyd da, datblygu sgiliau, codi hunan hyder a cael gweld rhannau newydd o Gymru a mae huna yn neis!

Sion Drummond

Gŵyl y Gannwyll



Bnawn Gwener, Hydref 21, cynhaliwyd Gŵyl y Gannwyll yn Hafan Elan. Trefnwyd y cyfan gan Haf Thomas, Buarthau. Mwynhawyd paned a chacennau a chasglwyd £260 hyd yma. Bydd yr arian yn mynd i brynu adnoddau i'r deillion a'r rhannol ddall.

Roedd yr ŵyl yma yn cael ei chynnal drwy Gymru gyfan. Mae Haf yn dymuno diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Band Llanrug.

Llongyfarchiadau i'r band ar ddod yn bedwerydd mewn cystadleuaeth yn Rochdale yn ystod y mis, a hynny yn erbyn rhai o fandiau pres gorau gogledd Lloegr.

Plaid Cymru

Enillwyr y Clwb Cant am Hydref

1.. Gwyn Hefin Jones, Brynrefail

2.. Meirwen Lloyd, Llanrug

Capel y Rhos, Llanrug

Côr COFNOD

CAERNARFON

gydag eitemau amrywiol
**gan blant Llanrug sydd
yn Ysgol Brynrefail**

Nos Sul, Tach 27ain 2016
am 7 y.h.

Arweinydd Arwel Jones
(Hogia'r Wyddfa)

Pris Tocyn £5 Plant £1

Yr elw at gronfa'r Capel

Cofio Michael Mothersole

Roedd Mike, fel y byddai'n cael ei alw, yn arfer byw yn y becws a'r siop ar groesffordd Bryngwyn. Cafodd ei eni yn Bebbington yng Nghilgwri a daeth i fyw i Lanrug yn hogyn ifanc ac ar ôl iddo ddod i'r ysgol gynradd, llwyddodd i ddysgu siarad Cymraeg yn gyflym iawn.

Pan oedden ni'n ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail, roedd ein dyddiau yno ac yn Llanrug yn ddyddiau llawn o hwyl a chwerthin. Gadawodd Mike yr ysgol yn 1956 ac ymuno â chwmni Shell Tankers, gan ddod yn y diwedd yn gapten tanceri olew a llongau nwyddau. Bu hefyd yn gyfrifol am osod ceblau tanfor i gwmni Cable & Wireless. O ganol y 1950au i ganol yr 1980au bu'n gweithio i nifer o gwmnïau llongau yn Ewrop, Affrica, De America a'r Dwyrain Pell – ac roedd ei fywyd yn wir yn llawn antur a chyffro. Yn ystod y misoedd diwethaf pan fyddwn yn mynd i'w weld, byddai'n dwyn i gof lawer o'r digwyddiadau hyn – hanesion a allai'n hawdd fod yn destun ffilm antur.

Ynghanol y 1980, penderfynodd Mike ddod yn ôl i fyw i'r lan ac aeth i fyw gyda'i deulu i Borthaethwy ble cafodd ei benodi'n Bennaeth y Pier ac yna'n Swyddog Morwrol Môn. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd honno, roedd yn gyfrifol am ddechrau gwasanaethau achub ar y traethau gan wneud defnydd o'r cwch pwrpasol, y Branwen. Ar ôl iddo ymddeol, aeth Mike a'i deulu i fyw i Fiwmares. Yno roedd yn un o aelodau hŷn Clwb Hwyllo Brenhinol Môn ac yn sicr yn un o'i aelodau mwyaf poblogaidd gan iddo gael ei ethol i swydd Comodor y Clwb.

Ers rhai blyneddodd bu'n rhaid i Mike wynebu nifer o broblemau iechyd a ddatblygodd yn y diwedd yn glefyd Motor Neurone. Bu fawr ar 30 Awst yn Ysbyty Gwynedd yn 75 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Sant Helen, Biwmares ar 6 o Fedi.

Estynnwn ein cydymdeimlad at ei wraig, Gwen, ei ferched a'i feibion-yng-nghyfraith, Karen a John, Kim a Ray, ei wyresau, Megan a Bethan, a'i frawd Peter.

Roedd Mike yn berson hwyliog a chymdeithasgar – coffa da amdano.

Colin Rowlands

Rhyddhau EP Alffa

Mae sylw wedi ei roi eisoes i'r grŵp Alffa yn yr "Eco", a bellach maent wedi rhyddhau EP. Daw'r aelodau o'r fro, sef Dion Jones, Llanrug a Sion Eifion Land, Ceunant.



Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug

01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Parhad LLANRUG



Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Margaret Parry, a chychwynnwyd y noson gyda Chên y Mudiad gyda Mair Huws yn cyfeilio. Llongyfarchwyd Eryl, Carrie a Helen ar ddod yn hen neiniau ac anfonwyd cofion annwyl at bawb sy'n sâl. Bu ymgyrch gwerthu ategolion tuag at Ymchwil y Galon gan y Mudiad yn eithriadol o lwyddiannus, gan godi'r swm enfawr o dros £10,000. Cynhelir Cwis Hwyl ym Meifod ar Tachwedd 11. Erfynnir ar wirfoddolwyr i Ddiwrnod y Dysgwyr ar Dachwedd 12 yn Stryd y Deon, Bangor rhwng 1.30 a 3.30.

Mae'r Mudiad yn dathlu 50 yn ystod 2017. Mae Pwyllgor Celf a Chrefft eisoes wedi dechrau trafod cyfraniad y Rhanbarth gan obeithio y bydd pob cangen yn dathlu yr achlysur hefyd. Mae cardiau Nadolig a dyddiaduron ar gael gan Nan. Cynhelir Cinio Nadolig y gangen yng ngwesty'r Celt, ar nos Fawrth, Rhagfyr 13. Tâl i law erbyn y cyfarfod nesaf os gwelwch yn dda.

Derbyniwyd llythyr gan Osian Edwards o Ysgol Brynrefail sy'n mynd i Batagonia dros yr hanner tymor gyda grŵp Urdd Gobaith Cymru fel rhan o brosiect gwirfoddoli rhyngwladol. Bydd yn ymweld â thrigolion y Wladfa o dras Gymreig ac yn gweithio mewn ysgolion i blant difreintiedig a phlant gydag anghenion arbennig. Cytunwyd i roi

rhodd o £50 tuag at y gost o £2,400 gan ddymuno pob hwyl iddo gyda'r prosiect cyffrous a phwysig yma.

Dymuna trefnwyr Bore Coffi Macmillan ddiolch i bawb am y gefnogaeth grefar fore Gwener, Medi 30ain. Llwyddwyd i godi £450.65.

Estynnwyd croeso cynnes i'n siaradwr gwadd, sef Gwenyth Davies, artist sydd yn creu gwaith mewn amlgyfryngau gan ganolbwyntio'n benodol ar Ffotograffiaeth Creadigol a Haniaethol. Swynwyd pawb gan y lluniau trawiadol o ardal y Llynnoedd, Dinas Dinlle, lluniau aml amlygiad o goed, y môr a'r wybren.

Rhyfeddodd pawb at ei dawn o ddefnyddio'r gwahanol gamerâu cymhleth. Mae gan Gwenyth stiwdio 'Gwennel' yn Uned 6, Gweithdy Parc Glynllifon gyda arddangosfa o'i lluniau, cardiau Nadolig a chardiau achlysuron arbennig. Diolchwyd i Gwenyth am noson i ryfeddu ac edmygu gan Margaret ac am ei rhodd i Tŷ Gobaith.

Diolch i Linda, Olwen a Jenny am ddarparu'r baned. Ann, Phyllis a Myfanwy fydd â gofal am y baned ar Dachwedd 8fed – pryd y cawn gwmni Linda, Janet ac Angharad, Crefftau Howgets.

Capel y Rhos

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch ddydd Sul, Hydref 16eg. Trefnwyd y cyfan

gan athrawon yr Ysgol Sul a braf oedd gweld cymaint o blant yn cymryd rhan.

Ar ddechrau'r gwasanaeth, gyda'r Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, bedyddiwyd Elis Ifan, ail fab bach Siôn ac Eleri Stokes, Penlôn. Roedd ei frawd mawr, Ilan, yno yn gofalu amdano hefyd.

Cyflwynwyd y rhoddion a'r casgliad o £262 i'r Ffoaduriaid eleni. Diolch i bawb am gefnogi'r gwasanaeth.

Oedfaon mis Tachwedd

6: y Gweinidog, y Parch Marcus W Robinson. Gweinyddir y Cymun

13: Miss Llinos Morris

20: Parch Marcus W Robinson

27: Mr T. Alun Roberts.

Priodas Llongyfarchiadau mawr i Carl Griffiths, mab Brian a Sharon, Bro Rhyddallt, ar ei briodas â Leah Haf Jones yng Nghapel Glanrhyd, Dinas, lle y'i magwyd.

Cafwyd y wledd briodasol yng Ngwesty y Deganwy Keys. Maent wedi ymgartrefu yn 23 Nant y Glyn. Pob dymuniad da i chi eich dau.

Gwaeledd Dymunwn wellhad llwyr i John Roberts, Bedw Gwynion, yn dilyn ei lawdriniaeth sydyn iawn yn Ysbyty Glan Clwyd. Falch eich gweld yn ôl yn dreifio, John.

Cafodd Morfudd Roberts, Rhos Minffordd, lawdriniaeth

frys hefyd yn Ysbyty Glan Clwyd. Pob dymuniad da i chithau hefyd, Morfudd, falch o ddeall eich bod yn dod ymlaen yn dda.

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd ddim yn dda yn y pentref. Cofion arbennig at Hefina, gwraig Keith, sydd yn Ysbyty Lerpwl yn cael triniaeth.

Falch o ddeall fod Hari Huws, 30 Glanffynnon yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty am gyfnod.

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mr Arthur Jones, 12 Hafan Elan, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed.

Cawn ddymuno pen-blwydd hapus arbennig eto i Mrs Mair Wyn Williams, Stad Talybont, hithau yn dathlu 90 mlynedd. Beth yw'r gyfrinach, Mair?

Profedigaethau Yn dawel ond yn sydyn bu farw John Owen, Cynefin, Nant y Glyn. Gŵr annwyl Megan, tad Glenda a thaid Ashley a Nicole. Brodor o Lanrug oedd John ond wedi byw am ran helaeth o'i oes yng Nghaernarfon. Wedi gwaeledd hir, cafodd ofal arbennig gan y teulu ond roedd yn ymdrechgar iawn ac yn hoffi cerdded o amgylch y pentref. Colled fawr ar eich ôl, John.

Dymunwn gydymdeimlo yn arw â Bethan, Aled a'r plant, Llys Eryri, Ffordd yr Orsaf, yn eu profedigaeth sydyn iawn o golli mam Bethan yn Llanfairpwll. Meddwl amdanoch fel teulu.

KERFOOTS EST 1874
136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth i bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasu mewn awyrgylch hamddenol.

=====

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

=====

www.kerfoot.com enquiries@kerfoot.com
Tel: 01766 512256

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
E-bost- lisa.huw@btinternet.com

ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

Helfa Ffwng Unigryw Ym Mro'r Eco



Cawsom y fraint eleni o groesawu Roddy Maclean, Albanwr a siaradwr Gaeleg a oeddodd ennyd yn ein bro cyn mynd ymlaen i Nant Gwrtheyrn i fynychu cwrs Cymraeg i ddechreuwyd. Mae Roddy yn hen gyfaill i lawer ohonom yma ac, yn ddigon tebyg i ni efo'r Gymraeg yng Nghymru, mae o'n defnyddio natur, enwau lleoedd a hanes llafar ar hyd a lled yr Alban i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a hyrwyddo hen iaith y Gaeliaid.

Ar ddydd Sul 9 Hydref fe gynhalion ni ein pedwaredd Helfa Ffwng, y tro hwn ar ddiwrnod Cenedlaethol y Ffyngau, Plantlife Cymru. Cynhalion ni'r helfa ei hun ym Mharc Dudley gan ddefnyddio "cwn clora" lleol (truffle-hounds o blant y fro sydd, fel y cwn hynny yn ne Ffrainc, cymaint yn well na ni oedolion diog a chrud-cymalog am ganfod y trysorau madarchaidd ym mherfeddion y goedwig!).

Ond rhan o'r diwrnod yn unig oedd hynny. Erbyn cyrraedd yn ôl i'r maes parcio roedd hi'n amser cinio a dyma fynd a'r madarch bwyriadwy (yn ôl efengyl ein harweinydd arbenigol y Dr Gareth Griffiths o Gaernarfon) yn ôl i un o'r tai i baratoi'r cynhaeaf ar gyfer y badell (dan ofal y cogydd o Lydaw Dominig Kervegant).

Roedd y tywydd yn braf a chynnes a'r sgwrs yn gynhesach fyth, a phawb yn cymryd eu tro i gyfieithu i Roddy. Ar ôl i'r cwmni bodlon hel eu traed am adre gofynnodd y gŵr hynaws i Gill Brown, yn acenion swynol ei fro enedigol (sef, "A' Chomraich", Applecross), "how unique was that? A fungus foray... held entirely in Welsh... in which the harvest is cooked and eaten afterwards in a convivial and civilised atmosphere". Doedd ond un ateb gan Gill - "unigryw iawn dwi'n siwr!"



Gwobrau'r Mudiad Meithrin.



Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni fis Awst lansiwyd cynllun gwobrwy y Mudiad Meithrin. Noddwyd gwobrau gan sawl cwmni, ac yr oedd naw categori gwahanol. O fis Awst hyd ddechrau Hydref derbyniwyd rhai cannoedd o enwebiadau am y gwahanol gategorïau.

Llongyfarchwn Rhodri Sion o Gylch Meithrin y Waunfawr am ennill y drydedd wobwr yng nghategori Gwifoddolwr.

CLWB 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Medi oedd £30: Mr G.S. Hughes, Pendas Eithin; £20: Mrs Cadi Jones, Nant; £10: Mrs Irene Roberts, Pant Teg.

Yr Ysgol Feithrin Dyma neges i'r rhai ieuengaf yn y pentref.

Nos Wener, Tachwedd 4ydd – SEF HENO.

Bydd Disgo Calan Gaeaf yn y Ganolfan rhwng 6.00 a 7.00 o'r gloch.

Bydd cystadlaethau gwisg ffansi ar gyfer plant oed yr Ysgol Gynradd.

Cewch brynu cŵn poeth a diod – bydd stondin gacennau – raffl – tatŵs gliter a llawer mwy

Pris fydd £1.50 wrth y drws

Dewch yn llw i gefnogi'r mudiad yma yn y Waun.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau a phob cariad gan y teulu i Enlli Pritchard, Llys Meredydd, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn deunaw oed.

Dymunwn ninnau Ben-blwydd Hapus iti, Enlli, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 21 mlwydd oed y bu Anest Bryn, Perthi. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iti i'r dyfodol, Anest. Rwy'n siŵr dy fod wedi mwynhau y dathlu.

Yn ystod y mis bydd Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, yn dathlu cyrraedd ei 90 mlwydd oed. Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau ichi, Mrs Jones. Byddwch yn parhau gyda'ch diddordebau yng nghyfarfodydd Sefydliad y Merched, yn y Clwb Bowlio, yn garddio ac wrth yr organ yn Eglwys y Waun.

Pen-blwydd Priodas Anfonwn ein dymuniadau gorau at Treflyn ac Anne, Treforfan, gan eu llongyfarch ar ddathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis.

Babanod Bach Newydd Llongyfarchiadau mawr i Elin a Meurig ar enedigaeth eu mab bach, Macsén Llew. Wyr bach i Heulwen, Argoed, ac i taid Lloyd, Ty'n Twll Bach.

Dymuniadau gorau i'r teulu a phob hwyl ar y magu.

Ganwyd merch fach, Alys, i Beca a Cynan Jones, Stad Bro Waun, chwaer i Emma. Croeso i chi deulu bach i fyw i bentref Waunfawr. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma.

Adref o'r Ysbyty Gorfú i Math, mab bach Beth ac Aaron Morgan,. Fynd i'r ysbyty ond mae'n braf clywed ei fod wedi gwella ac adref yn ôl gyda mam a dad.

Croeso adref wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty i Pearl Williams, Parc.

Ac hefyd croeso adref i Dean Clark, Stad Pant y Waun.

Wedi anffawd yn ei chartref cymerwyd Mrs Mair Williams, Bodhyfryd i'r ysbyty ond mae'n dda clywed ei bod yn gwella ac wdi dod adref.

Mawr obeithiwn y byddwch i gyd yn dal i wella. Cymerwch ofal mawr ohonoch eich hunain.

Cofion Trist yw deall bod Christine Roberts (gynt o Stad Bryn Golau) yn awr o Lanrug wedi ei chymryd i gartref nyrsio. Anfonwn ein cofion cynnes ati ac at ei theulu. Cofion hefyd ar rai eraill o'r pentref sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl ar hyn o bryd.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu a ffrindiau Mrs Joan Buckley yn eu profedigaeth o'i cholli yn ddiweddar.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mrs Marian Williams, Stad Tŷ Hen, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl i Mrs Williams.

Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys y Waun Bore Sul, Hydref 16, cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch aelodau yr Ysgol Sul yn Eglwys y Waun. Diolch iddynt am eu gwaith gyda Andrew Setatree yn eu harwain a Mrs Gwenda Griffith wrth yr organ. Bore Sul, Hydref 23, oedolion yr Eglwys oedd yng ngofal Gwasanaeth Diolchgarwch yr aelodau hŷn gyda Mrs Catherine Jones wrth yr organ.

Siop y Pentref Mae'r trefniadau a'r paratodau ar gyfer cael siop yn y pentref ar y gweill go iawn erbyn hyn

a'r gobaith ydy y bydd Siop y Pentref ar agor ddechrau'r flwyddyn newydd.

Clwb Bowlio Ar Fedi 23 cynhaliwyd cystadleuaeth fewnol y Clwb a'r enillwyr oedd:

Cwpan i Ferched (Rhoddedig gan Garej Pant Waun)

1 Pearl Williams; 2. Catherine Jones.

2 Cwpan i Ddwbl (Rhoddedig gan Garej Gwalia)

3 1. Emyr Evans a Ryan Burns; 2. Mal Burns a Carol Williams.

4 Mae diddordeb mawr yn ystod y gystadleuaeth yma a phawb yn chwarae ar eu gorau. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno gyda'r Clwb sy'n cyfarfod bob prynhawn a gyda'r nos ar ddydd Mawrth a dydd Iau am 2 o'r gloch a 7 yr hwyr. Dewch i roi tro arni. Byddwch yn mwynhau eich hunain rwy'n siŵr

Sefydliad y Merched Croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod ar Hydref 6. Cyfeiriodd at Mair Williams oedd wedi cael damwain yn ei chartref, gan ddymuno yn dda iddi. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd John Dobson Jones, arweinydd tîm paramedics ym Mhorthmadog. Siaradodd am y gwaith ardderchog mae'r bobl yma yn ei wneud a sut y maent wedi arbed llawer o fywydau, a hyn yn aml cyn bod ambiwlans wedi cyrraedd. Aeth â ni trwy y gwahanol fathau o driniaeth maent yn gorfod eu gwneud, gyda pherygl iddynt eu hunain yn aml. Dangosodd yr holl eitemau o gyfarpar meddygol oedd angen eu cario yn eu bagiau. Pwysleisiodd mor bwysig oedd i bawb allu dysgu sut i roi cymorth cyntaf i eraill. Diolchodd y Llywydd i Mr Jones am brynhawn difyr iawn.

Merched y Wawr Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn y Ganolfan, Waunfawr, ar nos Iau, 22 Medi. Croesawyd aelodau hen a newydd gan ein Llywydd newydd, Gill Wyn, a chawsom noson gymdeithasol braf yn mwynhau cwmni ein gilydd a'r lluniaeth flasus a'r banad oedd wedi ei pharatoi gan y pwyllgor. Ar ddiwedd y noson diolchwyd

i'r pwyllgor gan Alma Jones.

Nos Iau, 20fed o Hydref, cawsom y fraint o groesawu'r artist wreiddiol a diymhongar, Luned Rhys Parri atom. Cawsom ein hatgoffa gan ein Llywydd fod mam Luned, sef Rhiannon Parri o Benygroes, wedi dod atom ychydig flynyddoedd yn ôl i siarad am ei chreffftwaith hardd – hawdd gweld o lle daeth doniau'r ferch!

Rhoddodd Luned sgwrs hynod ddiddorol am ei gyrfa a'i datblygiad fel artist, a'r gwahanol brosiectau difyr y bu'n ymwneud â hwy, yn enwedig ei gwaith ym Mhatagonia efo'r prosiect Tosta efo ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop, a'i gwaith efo plant mewn gwahanol ysgolion. Wrth ddiolch iddi, gwnaeth Anita Myfanwy bwynt hynod o bwysig, sef yn yr un modd ag yr oedd Luned wedi talu teyrnged i'r athrawon a'r artistiaid a fu'n gymorth ac yn ysbrydoliaeth iddi hui wrth ddechrau ar yrfa fel artist, y byddai llawer o blant rhyw ddiwrnod yn diolch iddi hi am danio eu diddordeb mewn celf a chreu. Diolch, Luned, am ddod i'n plith a phob hwyl i chi yn eich gyrfa yn y dyfodol.

Croeso mawr i unrhyw un sydd am ymuno â'n cangen leol groesawgar Rydym yn hynod o falch fod nifer o aelodau newydd wedi ymuno â ni yn y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf ond mae lle i fwy. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r ysgrifennydd, Olwen Williams, Llidiart Wen.

Penrhyn, 5 Bro Eglwys Bethel

Diolch i'm teulu a ffrindiau arbennig am fy symud o'r Waunfawr lle bŵm yn hapus iawn dros lawer blwyddyn. Wedi dod yma i Fethel lle dwi'n cael croeso cynnes iawn i'w plith.

Diolch yn fawr Margaret Y Dalar Deg gynt

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Tachwedd am 10 o'r gloch y bore

6: Y Parch Cath Williams

13: Sul y Cofio a'r Gobaith i'r Dyfodol

20: Cyfarfod Gweddi

27: Parch Harri Parri

Merched y Wawr



Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, Gwyneth Jones, ac estynnwyd llongyfarchiadau i'r canlynol: Delyth am ddod yn nain i Teigan Rose, merch fach i Gwenan; Mair ac Emrys Read ar ddatlu priodas ruddem; Gwyneth Williams am i'w wyres, Gwenllian lwyddo'n ei arholiadau i fod yn fydwraig.

Atgoffwyd pawb am Eisteddfod Bethel, ac i bawb archebodd gardiau Nadolig a dyddiaduron – maent ar gael gan y trysorydd. Enillydd y raffl oedd Rhian, a dymuniadau gorau iddi ar ei thaith i Seland Newydd yn y dyfodol agos.

Croesawyd y gŵr gwâdd, Tweli Griffiths, y newyddiadurwr a oedd yn hysbys i ni ar y rhaglen 'Y Byd ar Bedwar'. Adroddodd am ei deithiau i bedwar ban byd, gan gyfarfod ac enwogion fel Fidel Castro, Y Cyrnol Gadafi a Nelson Mandela. Agorwyd ein llygaidd wrth glywed hanesion o'r hwyliog i'r trist; ac wrth gwrs fe allwch ddarllen am y rhain yn ei lyfr 'Yn ei Chanol Hi'.

Ymfalchiai yn y ffaith ein bod ni fel Cymry yn gwerthfawrogi y gwahanol ddiwylliannau drwy'r byd, yn enwedig mewn gwledydd fel De Affrica.

Cyn gorffen, dangosodd ddawn arall a feddai, sef un consuriwr, a ddysgodd gan ei ewythr o Lundain pan oedd yn ifanc. Mawr fu'r hwyl pan oedd pawb yn dyfalu ble roedd y bel yn y tric 'y cwpan a'r bel'. Wrth gwrs bu'n rhaid i'r trysorydd ddyfalu pris ei siaced, a sut yn y byd y gwnaeth y ffiawn dric!

Mae mwy o luniau o'r noson i'w cael ar y wefan www.mywbethel.org

Diolchwyd iddo am noson ddifyr iawn gan Mair Read oedd yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Aberystwyth yr un pryd ag ef. Doedd dim rhyfedd, meddai, nad oedd llwybr y ddau wedi croesi, gan iddo fod mor brysur ac yn crwydro cymaint.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 9fed. Croeso cynnes i bawb ymuno hefo ni i brofi Danteithion o'r Ddôl.

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi yn y Neuadd Goffa Bethel bore Gwener, Tachwedd 18, o 10.00 – 12.00. Bydd yno Fyrddau cacennau, crefftau Nadolig, Raffl a Tombola. Bydd elw'r bore yn mynd at Grwp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Mynediad yn £3.00. Croeso cynnes i bawb.

Penrhyn
5 Bro Eglwys
Bethel

Diolch i'm teulu a ffrindiau arbennig am fy symud o'r Waunfawr lle bûm yn hapus iawn dros lawer blwyddyn. Wedi dod yma i Fethel lle dwi'n cael croeso cynnes iawn i'w plith.

Diolch yn fawr
Margaret
Y Dalar Deg gynt

Clwb Bro Bethel Yr Aelod Seneddol dros Arfon, Hywel Williams, oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Hydref ac yn dilyn y croeso arferol gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, cafwyd sgwrs addysgiadol iawn ganddo yn sôn am ei waith fel AS. Yn dilyn Dafydd Wigley a fu'n AS am 27 mlynedd cafodd Hywel Williams ei ethol yn 2001 ac ers hynny mae'n cytuno fod y swydd yn un eithriadol o ddifyr a diddorol. Roedd yn ffodus iawn o'i staff yng Nghaernarfon ac yn Llundain ac roedd wedi dod ag Alun Roberts i'r cyfarfod, sef Swyddog Cyfathrebu Seneddol i Hywel Williams. Diolchwyd iddo am rannu ei brofiadau a chodi'r llen ar waith aelod seneddol gan Jenkin Griffiths.

Cymdeithas Lenyddol Cafwyd noson gerddorol wrth i weithgareddau'r Gymdeithas gychwyn tymor newydd.

Parti Clychau'r Grug, Llanrug, oedd yn diddanu ac yn dilyn croeso gan Rita Williams cafwyd amrywiaeth o eitemau yn cynnwys unawd, deuawd, cyflwyniad ar lafar ac ar gân yn dilyn taith o amgylch yr ardal, medli o alawon gwerin yn ogystal â nifer o ganeuon gan y Parti. Diolchwyd i Glenys a'r Parti, ac hefyd i'r merched am baratoi lluniaeth i bawb gan Gwyneth Jones.

Disgwylir Cemlyn Rees Williams, Caernarfon, i gyfarfod y mis nesaf ar Tachwedd 15 yn Ffestri Cysegr a testun ei sgwrs fydd 'Dylanwadau'. Croeso i aelodau newydd.

Diolch Dymuna John Maldwyn ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion, a chyfeillion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig.

Eisteddfod Diolch yn fawr i'r pwyllgor a sawl unigolyn am eu gwaith caled yn llwyfannu Eisteddfod Ieuenctid lwyddiannus eto 'leni. Nid ar chwarae bach mae cynnal y fath safon yn flynyddol.

Bellach mae'r neuadd ar ei newydd wedd yn llwyfan teilwng i dalentau digamsyniol plant yr ardal. Yr oedd yr achlysur yn deyrnged teilwng iawn i'r diweddar 'Archdderwydd' Geraint Elis. Roedd y pwyllgor, fel yr ardalwyr, yn gwerthfawrogi y ddarllenfa a ddefnyddiwyd yn yr Eisteddfod a roddwyd fel rhodd gan y teulu er cof am Geraint. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn gyffyrddus lawn drwy'r dydd. Hir y parhaed yr elfen bwysig hon o gynnal y traddodiad Gymreig yn y pentref. Bydd rhestr y canlyniadau ac ambell i lun yn ymddangos yn rhifyn Rhagfyr o'r Eco.

Bafta Llongyfarchiadau i Huw Foulkes, gynt o Dyddyn Gwndwn, ar fod yn rhan blaenllaw o Adran Newyddion BBC Cymru a enillodd wobr BAFTA Cymru yn ddiweddar. Un prysur yw Huw, yn arweinydd dau gôr i lawr yn y brifddinas ac ar alw fel beirniad yn ein prif wyliau.

Ar Waith Mae arwyddion fod y gwaith o addasu Y Bedol yn fangre aml-bwrpas wedi dechrau. Mae cryn drafod a dyfalu yn y pentref. Cawn weld pan ail agorir y drysau mewn ychydig fisoedd. Llongyfarchiadau i'r Parchedig Marcus Wyn Robinson ar ei etholiad yn Ysgrifennydd Cymdeithasfa yr Eglwys Bresbyteriaidd yn y Gogledd.

Rhoddion Unwaith eto eleni bu Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn hael iawn eu cyfraniad i fudiadau a chymdeithasau y pentref. Cyfrannwyd at Eisteddfod Bethel (£300); Clwb Bro Bethel (£150); Clwb Snwcer Bethel (£100); Cymdeithas Lenyddol (£100); Clwb Bowlio Bethel (£100); a Chlwb Ti a Fi Bethel (£150). £900 o gyfanswm. Gobeithio y bydd yn rhywfaint o gefn i'r mudiadau a chymdeithasau ac yn fodd i ddenu mwy o aelodau i ymaelodi.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Siomedig iawn fu'r ymateb i lenwi'r swydd wag dros Ward Bethel. Ni fu ymateb chwaith yn yr ambell ofyniad ynglŷn â chyfethol aelod. Yn wyneb y newidiadau arfaethedig, yn enwedig ym maes Cynllunio, mae'n bwysig fod llais Bethel i'w glywed yn glir yn y Cyngor. Mae rhannu baich yn elfen gref ym mhob cymdeithas.

Y Neuadd Goffa Os oes unrhyw un eisiau archwilio mantolen Neuadd Goffa Bethel 2015/6 yna gellir cael gweld copi yn y Swyddfa Bost, neu gysylltu â'r Cyng. Siôn Jones (01248 670491). Y mae pwyllgor y neuadd yn awyddus i gyflogi gofalwr/glanhwr ar gyfer y Neuadd Goffa. Am fanylion ynglŷn â thelerau'r swydd gellir cysylltu â'r Cyng. Siôn Jones neu aelod o'r pwyllgor.

Cystadleuaeth mis Hydref W.J. Gruffydd, Bethel, Arfon: Bardd, Golygydd, Gwleidydd, Llenor, Ysgolhaig

Yr Atebion Cywir

Beth ydoedd ail enw W.J. Gruffydd (1881-1954)?

Yr ateb ydyw John. Un o'i deidiau ydoedd John Gruffydd, Cefn, Llanrug. Ganed ei dad, sef J.J. Gruffydd, ym Mharc y Wern, Bethel, plwyf Llanddeiniolen.

Ble'n hollol ym Methel y bu'n byw?

Yr ateb ydyw Gorffwysfa. Bu iddo hefyd fyw yng Nghaerdydd ond bu farw yn nhref Caernarfon a'i gladdu ym mynwent Llanddeiniolen.

Pwy ydoedd ei chwaer, a fu'n sgwennu llyfrau i blant ac hefyd yn fardd?

Ei henw ydoedd Ceridwen, a Blodwen ydoedd enw ei chwaer. Ei brodyr ydoedd Wiliam John Gruffydd ac Elwyn. Yng nghyfrolau Elizabeth Stanley, sef Y Byd Byw (1) a (2) (1949-1955) a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Stephen J. Williams, cynhwysir penillion o'i heiddo. Dyma un ohonynt:

Mae'r gwrych a minnau'n unlliw,

Yn unlliw llwyd.

Pan ddaw'r dylluan heibio

I hel ei bwyd.

A phwy meddech chwi'r tro hwn sy'n ennill cyfrol ddiweddaraf Glan Adda, sef O'r India Bell a Storiâu Eraill? Neb! Ni chafwyd unrhyw gynnig/gynigion. Penderfynwyd felly trosglwyddo'r gyfrol i ofal Llyfrgell Ysgol Brynrefail. Diolch iti, Ffion, sy'n ddisgybl 6ed Dosbarth yn yr ysgol am hebrwng y llyfr i ben ei daith.

Diolchgarwch Jac Llandudno

Mae ynys yn Llyn Padarn
Lle casglâ'r giwiaid du,
Mulfrain milain yn moli
O'r Aber i sychu plu,

Ond 'leni – diolch i'r 'ecspert'
Mae'r llwyfan newydd sydd
Yn mesur gwenwyn torgoch
Ym Mhadarn' - gownter rhydd!

Âr môr yno'n rhy frochus
Iddynt ddowcio i'r lli
Am ymborth hawdd ei hela -
Joch o "Omega Three"!

Cans nepell oddi yno
Bydd torgoch – rhyw ddwy fil
Ad daliad 'Rawdurdodau
Stoc newydd – t'wchu'r hil!!

Nid rhaid wrth wych ddychy-
myg
I glywed Jac a'r Iôr
Yn sôn am g'neua newydd
heb fflio i Lan'Môr!!

Norman Closs

Nodyn Natur
Jac Llandudno – enw arall ar Y
Bili Dowcar neu'r Fulfran!



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch AS
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



**Rhyfeddodau Brasil, yr
Ariannin a'r Wladfa Gymreig
8 – 23 Ebrill 2017**

Taith ryfeddol yn ymweld â Rio de Janeiro,
Rhaeadrau anferthol Iguazu, Rhewlif syfrdanol
Perito Moreno, Bariloche yn yr Andes,
Y Wladfa Gymreig gan ymweld ag Esquel,
Trefelin. Croesi'r Paith i Drelew, Gairman, Porth
Madryn ble glaniodd y Mimosa, dinas hardd
Buenos Aires a llawer mwy.
Cyfle i brofi asado gyda trigolion lleol.

Cyfle unwaith mewn oes
- peidiwch â'i fethu!

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu,
Cysylltwch â Dafydd Owen
01286 881911 (dydd) 07795 485 081 (symudol)
ebost : crwydro@crwydro.com

www.crwydro.com

Un funud fach ...

BRON I GANRIF

Ar derfyn y Rhyfel Mawr, daeth yr ymladd i ben yn swyddogol ar yr unfed awr ar ddeg o'r unfed dydd ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg. Ymhen dwy flynedd, bydd hynny ganrif union yn ôl, a chaiff y canmlwyddiant hwnnw sylw mawr pan ddaw.

Amser a ddengys pa ddigwyddiadau arbennig a drefnir i nodi'r canmlwyddiant. Ond mentraf ddweud y bydd dau beth yn gwneud i'r dathliadau fod yn llai effeithiol nag y gallent fod.

Y peth cyntaf yw'r holl sôn a fu am ryfel dros y blynyddoedd diwethaf. Bu cyfnod pan nad oedd fawr o sôn am erchyllterau dau Ryfel Byd. Roedd y dioddefaint yn rhy agos ac yn rhy ddiweddar o bosibl, a gwell gan bobl oedd peidio â sôn gormod amdano. Ond daeth tro ar fyd, ac ers blynyddoedd – wn i ddim yn union faint, ond yn sicr dros y chwarter canrif ddiwethaf – cafwyd sôn parhaus am ryfeloedd y ganrif ddiwethaf. Buom yn nodi'n ddi-baid wahanol gerrig milltir y ddau Ryfel, gan gofio brwydrau a digwyddiadau 50, 60, 70, 80 a 90 mlynedd yn ôl. Ac er mor bwysig yw gwybod am y digwyddiadau hynny, mae modd bod yn rhy gyfarwydd â'r hanesion nes colli golwg ar erchyllter y cyfan.

A'r ail beth a fydd yn lleihau effaith y dathliadau yw'r ffaith ein bod yn dal i ryfela ac i ladd. Yn y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, roedd yna gred ein bod yn cofio'n flynyddol yr adeg yma o'r flwyddyn er mwyn sicrhau na fyddem byth eto yn rhuthro i ryfel arall. Roedd gwledydd gwâr wedi dysgu'r wers greulon. Ac er i ni glywed am ryfeloedd ym mhellafoedd byd, roedd yna gred na fyddem ni yng ngwledydd Prydain a gweddill Ewrop yn dilyn y llwybr hwnnw eto. Ac am flynyddoedd, fe'n perswadiwyd mai'r unig beth yr oedd ein lluoedd arfog yn ei wneud mewn gwahanol rannau o'r byd oedd cadw heddwch a chadw trefn.

Ond mae ein parodrwydd i fynd i ryfel mewn gwahanol rannau o'r hyd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf wedi tynnu oddi wrth rym y cofio. Ymhen dwy flynedd, byddai dathlu diwedd y Rhyfel Mawr wedi bod yn fwy effeithiol ac ystyrlon o lawer pe byddai'r holl gofio wedi ein gwneud ni a'n harweinwyr yn gymdeithas lai parod i ruthro i ryfel yn ein hoes ein hunain.

JOHN PRITCHARD



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch AC
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Ar ben arall i'r lein



Dros y mis a fu nid oes dim o gwbl wedi bod yn mynd ymlaen cyn belled â mae pysgota eog yn y cwestiwn. Mewn difri, does dim un wedi ei weld heb sôn am gael ei ddal. Yn ogystal â'r tawelwch ar yr afonydd mae'r Fenai yn anarferol o dawel, mae hyn yn arwyddocaol fod afonydd eraill gogledd Cymru yn dioddef o'r un newyn pysgodfaol. Dros y tymor cyfan dim ond pedwar eog sydd wedi dod i'r rhwyd a'r cwbl rhwng 4 a 7 pwys. Yn ôl y wybodaeth dwi 'di gael mae cyfrif y Gwyrfa'i yn ddim a'r Llyfni gyda rhyw hanner dwsin, yn cynnwys y trymaf o ddyfroedd y clwb sef 'sgodyn hyfryd o 12 pwys i Dylan Roberts, Penygroes.

Gyda'r pryder yn cynyddu am ddyfodol yr eog yn y fro mae tipyn o oleuni cyn belled â mae'r brithyll môr yn y cwestiwn Eleni mae'r Llyfni wedi pysgota'n eithriadol o dda, heb os mae'n bosib ei chyfri yn 2016 ymysg yr afonydd mwyaf cynhyrchiol yng Nghymru, gyda nifer yn dod i'r rhwyd at y pedwar pwys 'ma. Mae hefyd lygedyn o obaith cyn belled ac mae'r Seiont yn y cwestiwn, mae newyddion da wedi bod yn brin iawn yn yr hen ddyffryn 'ma am dros saith mlynedd. A fel hyn mae hi, er bod yr eog trymaf wedi dod o'r Llyfni mae'r brithyll môr mwyaf wedi dod o'r Seiont ac yn fwy na hynny, o fro'r Eco sef Rhyd Feiniog neu Crawia i rai - John G. Thomas, Felinheli oedd y 'sgotwr medrus a'i denodd, a hwn am 8 bwys. 'Sgodyn gwerth i gael.

Mae adroddiadau wedi dod i'm clyw fod heidiau o frithyll môr bychain wedi bod yn casglu ym mhyllau isa'r afon drwy Awst a dechrau Medi. Dyma'r union bysgod sydd wedi bod yn absennol dros y blynyddoedd. Efallai, gyda llawer o obaith, y bydd 'sgota gwell i'w gael yn ystod haf 2017.

Er bod yr afonydd wedi bod yn siomedig, mae'r llynnoedd wedi bod yn ardderchog. Rhoddais esboniad ar hyn mis diwethaf ond, wrth gwrs, i'r rhai sydd â'u bryd ar bysgod trwm, Dywarchen oedd y lle gyda adroddiad gan un ymwelwr ar docyn dyddiol iddo ddal tri brithyll yr enfys gyda chyfanswm pwysau o 15 pwys. Dyna i chi arbennig ac mae'r ganmoliaeth i gyd i'r gwirfoddolwyr o Ddeorfa Crawia sy'n gwneud hyn i gyd yn bosib. Gyda Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cau eu holl ddeorfeydd namyn un, sef Cynrig yn y canolbarth, mae arbenigedd y criw bach yma yn holl bwysig oherwydd y nhw yn unig yn awr sydd â'r medrusrwydd i ddeori a magu eog a sewin yn yr holl o ogledd Cymru. Efallai y daw rhyw newid ar feddylfryd CNC a'i meistri yn y Cynulliad fod cyfle arbennig i ddatblygu pethau'n lleol - ond o ran hynny 'rydym wedi bod yn pregethu am hyn dros flynyddoedd maith ac mae'n amlwg mai disgyn ar glust fyddar mae ein holl gynigion.

Dyma enghraifft o sut mae'r corff yma yn anwybyddu sefydliadau lleol - Mae deorfa Cynrig wedi ei lleoli ger Aberhonddu, sef 130 milltir o Lanberis. Fel y gwyddoch mae cynllun magu torgoch i liniaru'r problemau sy'n gysylltiedig â Llyn Padarn. I weithredu'r cynllun mae torgoch aeddfed yn cael eu rhwydo o Afon y Bala yng nghanol Rhagfyr a'r grawn yn cael eu godro ohonynt. Mae'r grawn wedyn yn cael eu cludo i ddeorfa'r CNC yn Cynrig ger

Aberhonddu, sef 130 milltir i ffwrdd. Yno deori'r grawn a magu'r sil hyd yn rhyw 6-8 mis oed. Yna fe'i cludir yn ôl i Lanberis a'u gollwng i'r llyn. Eleni carwyd y stocio ymlaen ar 6ed Hydref ble rhyddhawyd tua 4,000 o'r dorgochiaid bychan.

'Roedd cyflwr y pysg bach yma yn arbennig ac yn adlewyrchu'r gofal manwl roedd staff y ddeorfa wedi'i roi iddynt. Ond y cwestiwn i'w ofyn yw pam, o pam, nad yw corff cyhoeddus fel CNC yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i sefydliadau i gario gwaith fel hyn ymlaen yn lleol. Pwy a wŷr, efallai rhyw dydd y daw rhywun i arwain y corff yma a fydd gyda'r weledigaeth o drosglwyddo eu cyfrifoldeb. Mwy o obaith i hyn ddigwydd nac i Hen Ful 'roedd Tai'r Felin yn canu amdano guro'r Grand National - a cholli ei wynt oedd diwedd hwnnw!


Troi'n ôl at Dywarchen am funud - fel popeth llwyddiannus mae rhai â'u bryd ar gymryd mantais. Mis diwethaf cyfeiriais at y pysgota anghyfrifol a didrwydded ar Padarn, ond ar Dywarchen mae pethau wedi mynd gam ymhellach gan fod rhai sydd ddim yn aelodau yn pysgota ac yn anwybyddu'r holl reolau sy'n gwneud y lle yn bysgodfa arbennig. Wrth i'n aelodau siarad â hwy mae bygythiadau yn cael eu gwneud sy'n gwneud i lawer i un fod yn bryderus am eu diogelwch. Yn anffodus be sy'n codi fwy ar ein pryderon yw bod yr heddlu, er wedi derbyn manylion o'r digwyddiadau, yn dewis yn ôl pob golwg i anwybyddu'r ffeithiau. Fe anfonwyd gwybodaeth am hyn i swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, hefyd distawrwydd llethol ddaeth o'r lle yna. Tipyn gwahanol pan oedd yn canfasio at etholiad i'r swydd yn 'de.

Un bach arall i chwi grafu eich pennau - 'rwyf wedi diolch drwy'r Eco nifer o weithiau i'r sefydliadau ac unigolion sydd wedi cefnogi'r clwb drwy'r blynyddoedd tywyll o ymladd achos Padarn. Ond yn anffodus eleni 'roedd rhaid gwneud y cyhoeddiad amhleserus iawn o hysbysu'n aelodau nad yw hawlau pysgota ar ran o'r Seiont, sef caeau'r Erw, Pontrug, ar gael oherwydd fod clwb pysgota'r 'Prince Albert' o Macclesfield wedi rhentu'r lle. Ia cofiwch, o hyn ymlaen bydd yn rhaid i bysgotwyr lleol sydd â blas ar sgota'r afon sy'n rhedeg drwy y caeau islaw Erw Pwll y Glo (nid yr annedd yma yw perchennog y 'sgtoa, rhag cam ddealltwriaeth) ymuno a chlwb pysgota o du draw i Glawdd Offa. A chyn ymuno, bydd yn rhaid teithio i Macclesfield i gael cyfweiliad i benderfynu a ydych yn addas i bysgota rhan o afon yng Nghymru. Dyma pam mae ein hymdrechion i brynu pysgota ar ein dyfroedd wedi bod yn holl bwysig.

Mae gweinyddu'r byd 'sgota 'ma yn mynd yn fwy cymhleth fel mae'r blynyddoedd yn mynd heibio - a hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb sy'n cefnogi gweledigaeth y gymdeithas i allu cynnig pysgota da am bris fforddiadwy i drigolion lleol. Heb eich cymorth a bodlonrwydd aml i un i roi eu ysgwyddau i'r ymdrech, dyma sy'n gwneud yr holl waith yn bleserus - wel ar adegau!

Hwyl am y tro.

Huw Price Hughes



Sewin 8 bwys o'r 'Finlog'
Medi 2016
John G. Thomas. Felinhaeli

Ysgol Cwm y Glo



Mis diwethaf roeddym yn dathlu llwyddiant Rufus Littlejohn yng nghystadlaeth sgio Gogledd Cymru ym Mhlas y Brenin. Y mis yma rydym yn ei longyfarch am fynd gam ymhellach wrth ddod yn gyntaf yn y gystadlaeth drwy Gymru gyfan yn y ras dan 12. Gwych Rufus! Llongyfarchiadau gan holl gymuned yr ysgol - rydym yn siŵr bod dyfodol disglair o dy flaen.

Mae Lisa Campell, Swyddog Pobl Ifanc Egniol, wedi bod yn ymweld â ni pob wythnos yn ystod yr hanner tymor i gynnal gweithgareddau ffitrwydd gyda'r disgyblion. Mae'r plant yn edrych ymlaen i'w sesiynau a phob un yn dychwelyd wedi eu hymestyn i'r eithaf gyda bochau coch, iach ar ddiwedd y prynhawn. Diolch yn fawr Lisa.

Diolch yn fawr iawn i Mrs. Susan Williams am gynnal cyfnod

Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Elwyn Foulkes, 3 Rhes Bryn, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd llongyfarchiadau iddo ar ddatlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed.

Diolch Dymuna Elwyn Foulkes ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed.

Undeb y Mamau Ailddechreuwyd ein cyfarfodydd ar bnawn Mawrth, Medi 20fed yn Eglwys Sant Mair. Cafwyd gwasanaeth byr yng ngofal Auriel Howels a chafwyd munud tawel i gofio am Mrs Pat Wright, cyn lywydd y Ddeoniaeth a fu farw yn ddiweddar. Croesawyd Mrs Jenni S. Jones yn ôl wedi gwaeledd a diolchwyd i Marjorie am fynd â'r blancedi a wnaed ganddi i Ysbyty Gwynedd.

o ganu caneuon mawl (a symud!) efo'r disgyblion. Roedd y plant wrth eu boddau yn canu'r caneuon bywiog ac yn dysgu symudiadau newydd i gyd fynd â hwy.

Ein disgyblion ieuengaf oedd yn cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Roeddynt wedi ysgrifennu gweddïau o ddiolch a bu i bob un ohonynt ddarllen eu gwaith i'r gynulleidfau. Cafwyd casgliad o fwydydd i'w danfon i'r Banc Bwyd lleol. Diolch yn fawr iawn i'r Parch Carol Roberts am drefnu i ddosbarthu'r bwyd.

Cafwyd noson hwyliog 'Calan Gaeaf' gan y Cyfeillion gyda'r disgyblion wrth eu boddau yn cael gwisgo i fyny, dawnsio a chwarae gemau. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni am gynorthwyo ac yn benodol i Donna Hughes am drefnu'r cwbwl.

Trafodwyd rhai materion oedd i law. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Dorothy a Marjorie ac enillwyd y raffl gan Auriel. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi dan arweiniad y Parch Gwynfor Williams.

* * *

Ymunodd yr aelodau yn Eglwys Sant Mair ar bnawn Mawrth, 18 Hydref, pryd y gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Rheithor, y Parch Roger Donaldson.

Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd

materion perthnasol gan Auriel a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth aelodau oedd yn methu bod yn bresennol. Trafodwyd y cyfarfod ym Mhenrhyndeudraeth ar 18 Tachwedd pryd y bydd baner newydd y Gadeirlan yn cael ei gorffen, y Cinio Nadolig a rhaglen y flwyddyn nesaf.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel. Enillwyd y raffl gan Dorothy a diolchwyd i Auriel am y lluniaeth ganddi. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Arlunydd o Lanrug yn cyhoeddi'r Llyfr Lliwio Cyntaf Cymraeg i Oedolion

Cyhoeddir y llyfr lliwio cyntaf Cymraeg i oedolion y mis hwn gan wasg Y Lolfa.

Lliwio Cymru / Colouring Wales yw'r llyfr lliwio cyntaf i oedolion gyda thema gwbl Gymraeg i'r lluniau. Ceir ynddo 21 o luniau hyfryd a Chymraeg i'w lliwio gan yr artist o Lanrug, Dawn Williams, gan gynnwys lluniau o Branwen, Dewi Sant, Blodeuwedd, y Ddraig Goch, Cariad, Calon Lân a'r anthem genedlaethol, Hen Wlad fy Nhadau.

Gwelwyd twf yng ngwerthiant llyfrau lliwio i oedolion wedi i seicolegwyr honni bod canolbwytio ar liwio yn cael gwared ar feddyliau negyddol, yn gwella effeithiau straen ac yn ymlaciol.


Yn ôl y Sefydliad Iechyd Meddwl mae 59% o oedolion ym Mhrydain yn dweud eu bod dan fwy o straen heddiw nag oedden nhw bum mlynedd yn ôl. Er mai gweithred i blant oedd lliwio rhwng y llinellau ar un adeg, mae lliwio bellach yn cael ei ddefnyddio fel math o therapi amgen i helpu oedolion leddfu straen a gor-bryder.

'Dyma gyfrol unigryw ac arloesol yn y byd cyhoeddi yng Nghymru, a dyma'r unig un a gogwydd Gymraeg iddo,' meddai Fflur Arwel, Pennaeth Marchnata gwasg Y Lolfa. Cafodd yr artist proffesiynol Dawn Williams ei geni ym Mangor a'i magu ar Ynys Môn. Mae hi bellach yn byw yn Llanrug ac yn briod gyda tri o feibion.

'Bûm yn gaeth i gelf ers y foment defnyddiais fy mhensiliau am y tro cyntaf!' eglurodd Dawn, 'Roeddwn i'n ifanc iawn - yn blentyn mewn cartref plant yn Llandudno ac roeddwn wrth fy modd yn eistedd ar y bwrdd yn yr ystafell chwarae a dangos i'r plant eraill sut i wneud lluniau.'

'Roedd yn ffordd o ddianc i fyd gwahanol yr eiliad byddai'r pensil yn cyffwrdd â'r papur,' meddai Dawn, 'ac rwy'n cael fy ysgogi gan yr angen i ddianc i deyrnas lliwgar fy hun ac yn cael fy ysbrydoli gan fyd natur a gan bobl - popeth sydd o fy nghwmpas!'

'Neidiais ar y cynnig i greu llyfr lliwio Cymraeg'



RHEDEG MYNYDD

Mae'r tymor yn dirwyn i ben, gyda dim ond Ras Penmaenmawr i'w chynnal yn lleol yn ystod y mis sydd i ddod.

Ond braf yw cael llongyfarch rhedwyr lleol ar eu llwyddiannau mewn gwledydd eraill a thramor!

Mae cyfres Skyrunning UK wedi ei chynnal drwy'r tymor rhedeg mynydd, ac yn golygu cystadlu mewn rasy hir ar fynyddoedd sy'n aml yn anghysbell a garw. Yn ystod y mis diwethaf daeth Sarah Ridgway, Llanberis yn ail yn Ras Skyline Mourne, ac yr oedd y canlyniad yn ddigon iddi sicrhau pencampwriaeth y gyfres. Llongyfarchion felly i'r ail ferch o'r fro ar ddod yn bencampwraig Prydain eleni.

Mae pentref Llanberis a thref Morbegno yn yr Eidal wedi gefeillio ers sawl blwyddyn. Felly hefyd Ras yr Wyddfa a Ras y Trofeo Vanoni. Mae tri rhedwr cyntaf Ras yr Wyddfa yn cynrychioli'r ras yn Morbegno yn ystod mis Hydref o bob blwyddyn, a hynny mewn ras gyfnewid, gyda thri aelod i bob tim. Daeth triawd Ras yr Wyddfa yn bedwerydd yn y ras eleni. Roedd bron i 150 o dimau yn cystadlu; llawer ohonynt yn dimau rhyngwladol. Ond roedd tim o Gymru yn ddegfed hefyd, a dau o'r tim yn dod o'r fro, sef Mathew Roberts, Llanberis a Gareth Hughes, Penisarwaun. Y trydydd aelod oedd Russell Bentley. Roedd Arwel Lewis, Bethel hefyd yn aelod o Dim B Cymru yn yr un ras.

Yn ras yr unigolion, gyda bron i bedwar cant a hanner o redwyr, daeth Mathew yn ddegfed a Gareth yn 48fed; canlyniadau ardderchog yn erbyn rhedwyr o bob cwr o Ewrop.

Pencampwriaeth Sgio Ysgolion Cymru

Dyma ganlyniadau cystadleuaeth Pencampwriaeth Sgio Ysgolion Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Sgio Gwersyll yr Urdd Llangrannog - Ddydd Sul, 9fed Hydref. Diwrnod arbennig o braf a chanlyniadau gwerth chweil i Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Yn cystadlu o'r cynradd roedd Mared Evans, Izzy Shaw, Alaw Swyn, Cadi Owen a Lois Owen. Daeth Izzy Shaw yn 2il o dan 12oed Cynradd ac yn 3ydd o fewn ei chategori. Daeth tim yr ysgol yn 6ed sef Izzy, Alaw, Cadi a Lois. Roedd oddeutu 12 tim yn cystadlu.



Y Tafod yn galetach na'r Bel

Dros y ddau dymor diwethaf rydym wedi dilyn gyrfa Rhun Williams o Lanrug. Ef oedd cefnwr tîm rygbi dan 20 Cymru a enillodd y Gamp Lawn cyn cynrychioli ei wlad yn nhwrnamaint Cwpan y Byd. O fod yn aelod o garfan lwyddiannus RGC cafodd gynnig cytundeb gyda Gleision Caerdydd. O weld canlyniadau gwell y Gleision yng Nghynghrair y Pro 12 ac yn y gemau Ewropeaidd gall hwn fod yn symudiad amserol i Rhun. Mae wedi plesio tîm rheoli Cymru gan ei fod wedi ei alw i garfan h?n Cymru sy'n paratoi ar gyfer cyfres yr Hydref. Yn amlwg, mae yn 'un am y dyfodol' ac yn sicr mi all elwa o fod yn rhan o baratoad carfan ryngwladol. Mae'r stori a'r freuddwyd yn parhau.

Yn cystadlu o'r uwchradd yr oedd Osian Evans, Gwion Rhys Parry Evans, Cameron Shaw, Heledd Swyn, Alys Chisholm a Molly Chisholm. Daeth Molly yn 1af o dan 12oed Uwchradd a Cameron Shaw yn 2il o dan 14oed. Daeth tim y merched yn 7fed a'r bechgyn yn 8fed. Mi fydd tim y bechgyn yn mynd trwodd i Bencampwriaeth Terfynol Prydain a fydd i'w gynnal mis nesaf - Tachwedd - yn Gloucester. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Ffenestri CADNANT Windows

iorwerthwilliams@fsmail.net

**DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM**

13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

**GWAITH COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddach Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Chwaraeon

KIERAN FORREST

- Pencampwr Dringo Prydain ddwywaith



Yn Sheffield yn ystod y mis diwethaf enillodd Kieran Forrest o Lanrug ddwy gystadleuaeth ddringo Brydeinig, a'i goroni'n Bencampwr Iau Dringo Blaen a Dringo Cyflym. Roedd eisoes wedi ennill pencampwriaeth iau Prydain yn ei grwp oedran am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn y gystadleuaeth Dringo Blaen mae'r dringwyr yn ennill pwyntiau am gyrraedd uchaf ar ddringfa. Mae'r Dringo Cyflym, fel mae'r enw'n awgrymu, yn profi cyflymder y dringwyr. Llwyddodd Kieran i ddringo uchder o 17 metr mewn 10.97 eiliad. Ble bynnag yn y byd mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei chynnal, mae'r ddringfa bob amser yn union yr un fath. Rhaid wrth ymarfer cyson felly i 'adnabod' y ddringfa, ac y mae Kieran yn ffodus fod dringfa gydnabyddedig yng



Nghanolfan Beacon, Caernarfon, lle mae'n gwneud llawer o'i ymarfer.

Mae Kieran, sy'n bymtheg oed, yn aelod o dim iau Prydain ers dwy flynedd, ond bellach yn gorfod cystadlu yn y grwp oedran dan 17 oed, ac yn ennill profiad drwy gystadlu ar gylch dringo Ewrop. Mae'n treulio tua 20 awr yr wythnos yn ymarfer. Rhaid teithio i Fanceinion a Sheffield yn eithaf rheolaidd i gystadlu.

Am y tro cyntaf, bydd dringo'n cael ei gynnwys yn rhaglen Olympaidd 2020, a bydd Dringo Blaen a Dringo Cyflym yn rhan o'r gystadleuaeth. Hei lwc na welwn fachgen o'r fro yn cystadlu'n y Gemau Olympaidd mewn pedair blynedd!

CRIW IACH YW SGRYM Y FACHELL



Triawd sy'n mwynhau cystadlu ar sawl lefel yw plant fferm Y Fachell draw yn Seion, Llanddeiniolen. Y prif gampau maent yn ymhel â hwy yw rygbi a phêl-droed. Ym myd y rygbi Clwb Rygbi Caernarfon yw'r gyrchfan. Ac yn rhyfeddol iawn yn safleoedd y sgrym mae'r tri yn chwarae.

Elan Haf yw'r hynaf, ond er ond yn 15 oed hi yw rhif 8 tîm merched dan 18 y clwb. Ei hyfforddwraig yw Cenin Eifion o Benisarwaun. O gofio llwyddiant Cenin ym myd rygbi prin y gallai Elan gael tiwtor gwell.

Yna'r ddau fachgen, Bedwyr (14 oed) ac Elis (13 oed). Yn nhîm dan 14 y clwb, ar ochr y sgrym yng nghrys blaen asgellwr rhif 7 mae Bedwyr yn chwarae. Dyma safle allweddol ym mhob tîm, yn gofyn am gymysgedd o gryfder a chyflymder. Dyma safle brwydro am y bêl rydd ar y llawr, dyma safle rhoi pwysau ar faswr y gwrthwynebwr.

Rôl allweddol yn sgrym y tîm dan 13 sydd gan Elis hefyd. Ef yw'r bachwr. Nerth yw'r gofyn yma a pherthynas dda â'r mewnwr i reoli'r bachiad ac ennill pêl. Ef hefyd sy'n gyfrifol am daflu'r bêl i'r llinell, man hanfodol arall i gadw'r bêl. O feddwl, mae nifer o fachwyr Cymru wedi bod yn feibion ffermydd.

Mae'r ddau yn hen lawiau ar y gêm bellach wedi bod yn aelodau ers yn 7 oed ac wedi'u meithrin drwy'r dull gêm tag di-dacl. Bob bore Sul gan amlaf mae'r gemau, sy'n eu denu i'r Wyddgrug, Llanrwst, Pwllheli a Nant Conwy.

Mae'r bechgyn yn aelodau o dim pêl-droed dan 14 Bethel. Maent yn cael tymor da hyd yn hyn gan fod y tîm yn dal yng Nghwpan Oedranol yr Arfordir. Hefyd mae tîm -14 Ysgol Brynrefail yn dal yng Nghwpan Cymru. Wedi curo Ysgol Tywyn yn ddiweddar byddant yn wynebu Ysgol y Moelwyn yn y drydedd rownd.

Pob dymuniad da i'r tri ohonynt, a diolch mawr i mam a dad am yr holl gartio o gwmpas i gemau ac ymarfer. Ac am olchi'r holl cit, wrth gwrs. Dyna pam mae yna felin wynt ar dir Llys y Gwynt, i wneud yn siŵr fod digon o drydan i yrru'r peiriant golchi.